Mae APL yn un o is-fusnesau Drax Group plc ("Drax"), cwmni ynni o Brydain sydd wedi'i sefydlu ers tro byd, sy'n cynhyrchu oddeutu 7% o drydan y wlad. Yn ogystal â rhedeg gorsaf bŵer fwyaf y wlad yng Ngogledd Swydd Efrog, mae Drax yn dymuno datblygu tair gorsaf bŵer llosgi nwy hyblyg ledled y wlad: un yn Eye Airfield yn Suffolk, un arall ger Aberdâr yn ne Cymru, a'r drydedd ger Millbrook yn Swydd Bedford. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Drax ar gael trwy droi at www.drax.com.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro:

- Rhywfaint o fanylion ynghylch y Prosiect;
- Sut mae APL yn cyhoeddi datganiad gwybodaeth amgylcheddol rhagarweiniol ynghylch y Prosiect;
- Sut bydd APL yn ymgynghori â phobl a chymunedau lleol ynghylch y Prosiect a pha weithgareddau fydd yn digwydd i sicrhau y byddant yn cael gwybodaeth ynghylch y cynnig a'u helpu i ddeall beth fydd arwyddocâd posibl agweddau penodol o'r prosiect iddynt hwy, a bydd hynny'n caniatáu iddynt gynnig adborth sy'n seiliedig ar wybodaeth;
- Sut gall pobl gyfrannu at ddylanwadu ar y Prosiect cyn y cyflwynir cais am DCO trwy rannu eu safbwyntiau, yn enwedig ynghylch dewisiadau penodol sy'n cael eu hystyried; a
- Sut gall pobl gynnig adborth i APL o weithgareddau ymgynghori a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu am y Prosiect.

Y Prosiect

Dyma fanylion allweddol y Prosiect arfaethedig.

- Adeiladu Gwaith Cynhyrchu Pŵer sydd ag allbwn trydanol wedi'i raddio o hyd at 299 MW. Bydd gan y Gwaith Cynhyrchu Pŵer un stac, hyd at 45m o ran uchder; Mae'r tyrrau trawsyrru cyfagos oddeutu'r un uchder.
- Ffordd Fynediad i Safle'r Prosiect, a ffurfir trwy ymestyn ffordd fynediad bresennol o'r B4489.
- Mae'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys darparu Llecyn Storio i'w ddefnyddio dros dro yn ystod y gwaith adeiladu, a Chwrt Cynnal a Chadw parhaol.
- Bydd y Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynhyrchu trydan o nwy naturiol - wedi'i gynllunio fel 'gwaith cynhyrchu cyfnod brig' a byddai'n gweithredu am hyd at uchafswm o 2,250 o oriau mewn unrhyw flwyddyn benodol, ar yr amod nad yw'r cyfartaledd treigl 5 mlynedd yn fwy na 1,500 o oriau'r flwyddyn;
- Rhagwelir mai 25 mlynedd fydd hyd oes y Prosiect.
- Bydd y Prosiect yn cynnwys adeiladu cysylltiad trydan tanddaearol newydd (hyd at 1km o ran hyd) â System Trawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol gerllaw ac adeiladu piblinell danddaearol newydd (hyd at 1.4km o ran hyd) i ddod â nwy naturiol i'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer o'r System Trawsyrru Nwy Genedlaethol (er na cheisir caniatâd am y biblinell nwy a'r cysylltiad trydan fel rhan o'r cais am DCO).
- Bydd y Prosiect yn creu oddeutu 150 o swyddi yn ystod cyfnod adeiladu fydd yn para am ddwy flynedd a hyd at 15 o swyddi parhaol ar ôl i'r gweithredu masnachol gychwyn;
- Mae'n ymateb i angen Llywodraeth y DU am drydan wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio nwy i danategu diogelwch ynni'r wlad a'i phontio i economi carbon isel.

- Byddai'r orsaf yn allyrru oddeutu 50% yn llai o garbon deuocsid (CO₂) na gwaith cynhyrchu pŵer tebyg ei faint sy'n llosgi glo, ac fe'i cynllunnir i weithredu'n hyblyg fel gall ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i amrywiadau tymor byr yn y galw gan gwsmeriaid, ac i allbwn ysbeidiol cynhyrchu trydan gan ddefnyddio ynni'r gwynt a'r haul.

Cydnabyddir yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu y bydd posibilrwydd o effeithiau andwyol ar rai cymunedau lleol a'r amgylchedd, er enghraifft, sŵn a thraffig yn ystod y cyfnod adeiladu, ac effeithiau gweledol y stac newydd. Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn cael ei gynnal; bwriad yr EIA yw deall a lleihau effeithiau posibl y gwaith o adeiladu a rhedeg y Prosiect. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses hon isod. Bydd y broses EIA hefyd yn ystyried effeithiau cadarnhaol posibl gweithredu'r Prosiect.

Y Broses Gynllunio

Caiff ceisiadau am DCO ar gyfer NSIPs eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn prosesu ac yn archwilio'r cais cyn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol. Gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch y cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac os bydd yn llwyddiannus, rhoddir DCO.

Yng nghyd-destun gorsafoedd cynhyrchu yng Nghymru, mae Deddf Gynllunio 2008 yn cyfyngu ar yr hyn y gellir gwneud cais amdano drwy'r broses DCO i ddatblygiad sy'n rhan annatod o'r NSIP ac yn ffurfio rhan ohono. Ar gyfer Prosiect APL, yr elfennau annatod yw'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Llecyn Storio/Cwrt Cynnal a'r Ffordd Fynediad. Ni fydd cais APL am DCO yn ceisio caniatâd i adeiladu a gweithredu'r cysylltiadau nwy a thrydan; yn hytrach gwneir cais cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu defnyddir hawliau datblygu a ganiateir (fel sy'n gymwys). Fodd bynnag, cynhwysir pwerau caffael gorfodol ar gyfer y tir a'r hawliau sy'n ofynnol i adeiladu, gweithredu a chynnal y cysylltiadau nwy a thrydanol o fewn y cais am DCO.

Mae polisi'r Llywodraeth mewn cysylltiad ag NSIPs wedi'i amlinellu mewn cyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ("NPSs"). Datblygwyd y Prosiect gan ystyried yr NPSs Ynni perthnasol, yn arbennig EN-1 (Ynni), EN-2 (Seilwaith Cynhyrchu Trydan Tanwydd Ffossil), ac EN-5 (Seilwaith Rhwydweithiau Trydan). Mae NPS EN-1 (Ynni) yn nodi y bydd *"nwy yn parhau i wneud cyfraniad pwysig yn y sector trydan - gan ddarparu hyblygrwydd hanfodol i gefnogi lefel gynyddol o gynhyrchu carbon isel ac i sicrhau diogelwch y cyflenwad"*.

Wrth wneud penderfyniad ynghylch cais am DCO, bydd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr NSPs perthnasol a gwneud penderfyniad yn unol â'r rhain, oni bydd yn fodlon y byddai effaith andwyol y Prosiect yn gorbwyso ei fuddion.

Wrth ystyried a ddylid derbyn cais i'w archwilio, bydd rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio fod yn fodlon fod yr ymgeisydd wedi ymgymgryd â gwaith ymgynghori effeithiol cyn cyflwyno'r cais, yn unol â darpariaethau Deddf Cynllunio 2008. Mae ymgynghori cyn cyflwyno'r cais yn hanfodol er mwyn caniatáu i APL ddeall a cheisio lleihau effeithiau'r Prosiect. Mae'n ofynnol i APL gyflwyno Adroddiad ynghylch yr Ymgynghori gyda'i gais am DCO. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion yr adborth a gafwyd gan y gymuned leol (yn 2014/2015 ac yn 2018), yn egluro sut mae APL wedi ystyried a rhoi sylw i'r adborth a bydd yn disgrifio sut mae APL wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Cynllunio 2008 ynghylch ymgynghori.

Caiff yr ymgynghoriad â chymunedau a ddisgrifir yn y datganiad hwn ei gynnal o dan Adran 47 Deddf Cynllunio 2008. Mae'n ychwanegol i'r ymgynghori a wneir ag ymgynghoreion statudol penodol (megis cyrff cadwraeth natur statudol) a'r sawl sydd â buddiannau penodol mewn tir (yn cynnwys perchnogion a phreswylwyr sydd o fewn terfynnau'r Prosiect) o dan Adran 42 Deddf Cynllunio 2008. Mae hynny hefyd yn ychwanegol i gyhoeddi ehangach y Prosiect arfaethedig o dan Adran 48 Deddf Cynllunio 2008.

Ceir gwybodaeth am broses gynllunio'r NSIPs a'r NPSs trwy droi at:

<http://infrastructure.planningportal.gov.uk>

Gwybodaeth ac Effeithiau Amgylcheddol

Cynllunnir a datblygir y prosiect i sicrhau y bydd yn cyflawni neu'n rhagori ar safonau ansawdd, diogelwch ac amgylcheddol presennol, ac ymdrechir i leihau ei effaith ar yr amgylchedd lleol, yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Bydd ehangder a maint y Prosiect a chynigion APL i liniaru ei effeithiau ymhlith y materion a ystyrir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Oherwydd natur a maint y prosiect, mae APL yn cynnal EIA yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 ("Rheoliadau EIA 2009). Felly, ystyrir y prosiect yn ddatblygiad EIA. Mae'r Prosiect yn dod o dan drefn Rheoliadau EIA 2009 ac nid y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau EIA 2017). Mae hyn

oherwydd y gofynnwyd am farn cwmpasu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau EIA 2009 a chyn y dyddiad pan ddaeth Rheoliadau EIA 2017 yn berthnasol i brosiectau. Mae hyn yn golygu, yn unol â'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 37 (2) (a) Rheoliadau EIA 2017, bydd Rheoliadau EIA 2009 yn parhau i fod yn berthnasol i'r prosiect.

Bydd yr EIA yn ystyried effeithiau posibl y prosiect, yn cynnwys: ansawdd aer; sŵn a dirgrynnu; ecoleg; ansawdd ac adnoddau dŵr; daeareg ac amgylchiadau'r tir; tirwedd ac effaith weledol; traffig, cludiant a mynediad; amgylchedd hanesyddol; ac economeg gymdeithasol.

Mae APL wedi ymgynghori â nifer o gyrff statudol ynghylch cwmpas yr EIA, yn cynnwys yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), Awdurdod Priffyrdd De Cymru, a darparwyr cyfleustodau. Cyflwynwyd cais am Farn Cwmpasu i'r Ymgynghoriaeth Cynllunio ar y 25^{ain} o Fehefin 2014, ynghyd ag Adroddiad Cwmpasu. Fe wnaeth yr Adroddiad Cwmpasu amlinellu pa bynciau amgylcheddol byddai'r EIA yn eu cwmpasu a sut byddai'r asesiadau yn cael eu cynnal. Fe wnaeth yr Arolygiaeth Gynllunio gyhoeddi ei Barn Cwmpasu ffurfiol ar y 1^{af} o Awst 2014.

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Abergelli Power (www.abergellipower.co.uk) a thrwy'r adran benodol ar wefan yr Ymgynghoriaeth Cynllunio: <http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/>

Fel rhan o'r deunyddiau ymgynghori cyn cyflwyno cais, bydd APL yn cyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR 2018) (diweddariad o'r PEIR a gyhoeddwyd fel rhan o ymgynghoriad statudol 2014) a chrynodeb annhechnegol cysylltiedig (NTS 2018). Bydd PEIR 2018 yn cyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn ac yn darparu canlyniadau canfyddiadau rhagarweiniol APL o'r asesiad o effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y Prosiect. Ni fydd yn amlinellu'r canfyddiadau terfynol, ond bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch mesurau lliniaru dros dro. Yn ychwanegol, cyhoeddir Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol sy'n ystyried effeithiau'r Prosiect ar safleoedd sydd wedi'u dynodi gan yr Undeb Ewropeaidd yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Wrth ymgynghori, bydd APL yn sicrhau bod manylion ar gael am gynigion ynghylch tirweddu a mesurau eraill i liniaru effaith y Prosiect. Bydd APL yn darparu copïau o PEIR 2018 a'i NTS 2018

cysylltiedig i Gyngor Dinas a Sir Abertawe fel yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd NTS 2018 hefyd ar gael yn Gymraeg. Bydd dogfennau PEIR 0218, NTS 2018 a'r fersiwn Cymraeg o NTS 2018, a'r adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol ar gael mewn llyfrgelloedd lleol, mewn arddangosfeydd cyhoeddus a gynhelir fel rhan o'r broses ymgynghori, ac ar wefan APL. I gael rhagor o wybodaeth am y deunyddiau fydd ar gael, ble ac ym mha fformat, trowch at ***Sut fyddwn ni'n ymgynghori?*** isod.

Pan gwblheir y broses EIA a bydd APL yn cyflwyno ei gais am DCO, cyflwynir Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais. Bydd hwn yn adrodd ar effeithiau arwyddocaol tebygol y Prosiect ar yr amgylchedd a nodir yn yr EIA, a bydd yn egluro'r mesurau lliniaru i osgoi neu leihau'r rhain.

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae barn y gymuned leol am y Prosiect yn bwysig. Ym Mai/Mehefin 2014, fe wnaeth APL gynnal proses ymgynghori anstatudol. Ym Mehefin 2014, fe wnaeth APL rannu ei gynlluniau â'r cyhoedd mewn tair arddangosfa a gynhaliwyd yng Nghlydach, Felindre a Thircoed, yn dilyn dosbarthu llythyr i gyflwyno'r Prosiect i ddeutu 5,500 o gartrefi a busnesau sy'n agos iawn at Safle'r Prosiect. Daeth cyfanswm o 94 o bobl i'r tair arddangosfa ac fe wnaethant gynnig sylwadau ynghylch y Prosiect arfaethedig, y buddion i'r gymuned a'r broses ymgynghori. Yn Hydref/Tachwedd 2014, cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol 35 diwrnod, yn cynnwys pedair arddangosfa gyhoeddus yn yr ardal leol - yn Llangyfelach, Clydach, Felindre a Thircoed, yn dilyn anfon taflen ynghylch y Prosiect a'r rhaglen ymgynghori at aelwydydd, busnesau a sefydliadau yn y Parth Ymgynghori Craidd (CCZ). Daeth cyfanswm o 106 o bobl i'r pedair arddangosfa a chafwyd amrywiaeth o adborth ganddynt, yn bennaf ynghylch yr angen am y Prosiect, y broses o ddewis safle, y broses ymgynghori, buddion i'r gymuned a'r effeithiau posibl ar y dirwedd, cludiant ac effeithiau cymdeithasol ac economaidd. Fe wnaeth APL adolygu ac ymateb i'r adborth a gafwyd yn ystod ymgynghoriad 2014, ac mae wedi ystyried y sylwadau wrth ddatblygu'r Prosiect.

Fe wnaeth y gwahanol weithgareddau ymgynghori yn ystod 2014 helpu i lywio datblygiad y Prosiect ac arweiniodd hynny at benderfyniad APL i:

- Leihau nifer y staciau o uchafswm o bump i un;
- Newid uchafswm uchder y staciau o 40m i 45m;
- Cydgrynhoi Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu i'r gogledd o'r Prif Gyflenwad Dŵr;

- Dewis llwybr mynediad o'r B4489 i'r gorllewin o'r Cyfarpar Cynhyrchu yn lle'r llwybr mynediad o'r gogledd; a
- Dewis opsiwn cebl tanddaearol ar gyfer y Cysylltiad Trydanol, yn hytrach nag opsiwn llinell uwchben.

a. *Beth rydym ni'n ymgynghori yn ei gylch nawr a phryd fyddwn ni'n ymgynghori?*

Ym Mawrth 2015, penderfynodd APL ohirio ei gynlluniau ar gyfer y Prosiect ac fe hysbysodd y partïon a chanddynt fuddiant trwy lythyr a gwybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan y Prosiect fod hynny wedi digwydd. Mae APL bellach yn eiddo i Drax, ac mae'n dymuno ailgychwyn y broses o wneud cais am DCO ar gyfer y prosiect. Felly, ac o gofio dull agored ac ymgysylltiedig APL o gynnal ymgynghoriad yn 2014, mae APL yn dymuno cychwyn ail gam o ymgynghori statudol, yn cychwyn ar yr 16^{eg} o Ionawr 2018 (ac yn gorffen ar y 19^{eg} o Chwefror 2018), yn ceisio safbwyntiau ynghylch yr wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol a gyflwynir ynghylch y Prosiect ac am elfennau allweddol eraill o'r Prosiect a restrir isod. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, bydd y cynlluniau'n cael eu cwblhau a bydd y cais am DCO yn cael ei gyflwyno.

Gwahoddir ymatebion ynghylch:

- Y Gwaith Cynhyrchu Pŵer, fel y'i cynigir ar hyn o bryd, gan gynnwys newidiadau ers ymgynghoriad 2014;
- Yr opsiwn/opsiynau o ran llwybr arfaethedig ar gyfer y Ffordd Fynediad;
- Cynllun dangosol y Gwaith Cynhyrchu Pŵer o fewn Safle'r Prosiect; a
- Chanfyddiadau rhagarweiniol yr asesiad o ran effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y Prosiect.

Bydd yr ymgynghoriad a eglurir yn y Datganiad hwn yn rhedeg am 35 diwrnod o'r 16^{eg} o Ionawr tan y 19^{eg} o Chwefror 2018. Rhaid i sylwadau ynghylch y Prosiect gyrraedd APL erbyn y dyddiad hwn.


b. *Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â hwy?*

Yn ôl Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd), dylid ymgynghori â'r sawl 'sy'n byw yn agos at y tir'. Mae APL wedi trafod cwmpas yr ymgynghoriad â Dinas a Sir Abertawe (CCS) fel yr awdurdod cynllunio lleol, ac mae wedi nodi a chytuno ar y Parthau Ymgynghori fydd yn sail i'r ymgynghoriad â'r gymuned.

Bydd APL yn cynnal ei weithgareddau ymgynghori mewn dwy ardal: Parth Ymgynghori Mewnol

(CCZ) sy'n cyfateb i radiws o 3.5km fwy neu lai o Safle'r Prosiect, a Pharth Ymgynghori Allanol (OCZ) sy'n cyfateb i radiws o 8km fwy neu lai. Y parthau ymgynghori hyn yw'r un rhai a ddefnyddiwyd gan APL yn ystod ymgynghoriad 2014.


Mae'r CCZ wedi'i lunio i gynnwys y prif ardaloedd poblogaeth yng nghyffiniau Safle'r Prosiect (yn ward CCS Mawr) a allai gael eu heffeithio gan y prosiect, a disgwylir y bydd y diddordeb pennaf yn y Prosiect yn yr ardaloedd hyn. Mae'r parth yn cynnwys pentrefi Clydach, Felindre, Llangyfelach a Thircoed, a'r cymunedau/ardaloedd cynghorau cymunedol lleol, yn gyfan neu'n rhannol: Clydach, Llangyfelach, Mawr, Treforys, Mynyddbach, Penllergaer, Penderri, Lluchwr, Pengelli a Waungron, a Phontlliw a Thircoed. Anfonnir taflen gwybodaeth at aelwydydd, busnesau a sefydliadau yn y CCZ, a'r CCZ fydd ffocws yr arddangosfeydd cyhoeddus (gweler isod).



Parth Ymgynghori Craidd Arfaethedig - radiws o 3.5km fwy neu lai o Safle'r Prosiect

Caiff cymunedau yn yr OCZ eu hysbysu am y Prosiect (trwy hysbysebion mewn papurau newydd, posteri, sylw gan y cyfryngau a chyswllt ag aelodau etholedig lleol a chynghorau cymuned yn yr

OCZ a sefydliadau lleol perthnasol eraill) a byddant yn cael cyfle i gynnis sylwadau am y cynlluniau. Mae'r parh allanol yn cynnwys prif ardal boblogaeth dinas Abertawe.



Parth Ymgynghori Allanol Arfaethedig - radiws o 8km fwy neu lai o Safle'r Prosiect

Nid yw APL yn rhagweld y bydd cymunedau a busnesau sydd yn yr OCZ yn cael eu heffeithio'n arwyddocaol gan y gwaith o adeiladu a gweithredu'r Prosiect, ond mae APL yn cydnabod y gallant fod â diddordeb ynddo. Caiff y sawl sydd oddi allan i'r ddau barth eu hysbysu am y prosiect trwy bapur y South Wales Evening Post a leolir yn Abertawe am bythefnos cyn cynnal y digwyddiad cyntaf, a thrwy gyfrwng cyhoeddiadau newyddion lleol a rhanbarthol, gorsafoedd radio lleol a gorsafoedd Teledu (a thrwy gyfryngau ar-lein) a chyfryngau cymdeithasol. Bydd yr hysbysebion mewn papurau newydd (a sylw gan y cyfryngau) yn cyrraedd y sawl sydd oddi allan i'r CCZ a'r OCZ, yn ogystal â'r sawl sydd yn y CCZ a'r OCZ. Ystyrir adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y cynnwys yn cynnig gwybodaeth am gynigion APL a manylion y gweithgareddau ymgynghori, yn cynnwys manylion cysylltu.

c. Sut fyddwn ni'n ymgynghori?

Bydd APL yn ceisio ac yn canfod safbwyntiau pobl trwy nifer o weithgareddau:

- Cynhelir arddangosfeydd cyhoeddus yng Nghlydach, Felindre, Llangyfelach a Thircoed o fewn y CCZ. Yn unol â'r broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd yn 2014 (a'r adborth a gafwyd), rydym yn dal i ystyried mai'r rhain yw'r safleoedd mwyaf cyfleus i'r cymunedau hynny o fewn y CCZ sydd o amgylch Safle'r Prosiect. Bydd APL yn trefnu iddynt gael eu cynnal ar adegau cyfleus, yn cynnwys digwyddiad a gynhelir ar ddydd Sadwrn i'r sawl na all ymweld ag arddangosfa yn ystod yr wythnos waith. Bydd APL yn defnyddio manau cyfarfod sy'n cyflawni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, ac os caiff geisiadau rhesymol a phrydlon, bydd yn darparu ar gyfer y sawl sydd ag anghenion arbennig sy'n methu mynychu neu gael mynediad i ddigwyddiad ymgynghori (er enghraifft, cludiant preifat i ddigwyddiad ymgynghori).
- Bydd yr arddangosfeydd cyhoeddus yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y Prosiect mewn sawl fformat (paneli arddangos, cynlluniau, taflenni ayyb), a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd PEIR 2018, a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn sgil ymgynghoriad 2014, hefyd ar gael i'w ddarllen. Bydd aelodau o dîm prosiect APL ar gael i drafod y Prosiect, ateb cwestiynau a derbyn adborth gan y cyhoedd. Bydd ffurflenni adborth Cymraeg a Saesneg ar gael yn yr arddangosfeydd hyn, fel gall pobl gynnig eu barn am y prosiect.
- Anfonnir taflen at aelwydydd, busnesau a sefydliadau yn y CCZ o leiaf wythnos cyn y digwyddiad ymgynghori cyntaf, i'w hysbysu am y digwyddiadau ymgynghori a gynhelir, a byddant ar gael yn swyddfeydd lleol y cyngor, llyfrgelloedd lleol a lleoliadau eraill fel y bo'n briodol. Caiff yr wybodaeth hefyd ei hanfon at y grwpiau hynny a ystyrir yn rhai sy'n "anodd eu cyrraedd" (er enghraifft, yr henoed, pobl ifanc, a grwpiau lleiafrifol). Bydd yn cynnwys cefndir y Prosiect, y broses ymgynghori (yn cynnwys arddangosfeydd), a sut gall unigolion gyfranogi yn y broses. Bydd y daflen ar gael mewn llyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y cyngor yn yr OCZ. Cynhyrchir y daflen hon yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, bydd APL yn cysylltu ag aelodau etholedig Cyngor Dinas a Sir Abertawe, cynghorau cymuned, yr AS lleol ac ACau y mae eu hetholaeth yn cwmpasu'r CCZ, i drafod y Prosiect.
- Bydd yr wybodaeth ganlynol ar gael yn y lleoliadau isod:
 - Copïau caled o'r SoCC, y daflen, PEIR 2018 ac NTS 2-18; a
 - Chopïau electronig o'r fersiwn Gymraeg o NTS 2018, yr Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol, ac atodiadau technegol PEIR 2018 PEIR.

	Llyfrgell Ganolog Abertawe Y Ganolfan Ddinesig, Ffordd Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN (01792) 636464	Llyfrgell Clydach Y Stryd Fawr Clydach, Abertawe SA6 5LN (01792) 843300	Llyfrgell Gorseinon 15 Stryd y Gorllewin, Gorseinon, Abertawe SA4 4AA (01792) 516780	Llyfrgell Treforys Heol Treharne, Treforys Abertawe SA6 7AA (01792) 516770	Llyfrgell Pontarddulais Rhodfa San Mihangel, Pontarddulais, Abertawe SA4 8TE (01792) 882822
Dydd Llun	AR GAU	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Mawrth	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Mercher	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Iau	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Gwener	8.30-20.00	9.30-18.30	9.00-19.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 a 14.00 - 18.00
Dydd Sadwrn	10.00-16.00	9.30-16.30	9.00-17.00	9.00-17.00	9.00- 13.00
Dydd Sul	10.00-16.00	AR GAU	AR GAU	AR GAU	AR GAU

- Gellir sicrhau fod y daflen a gwybodaeth arall am y Prosiect ar gael mewn fformatau eraill (e.e. print bras neu Braille) ac yn Gymraeg yn dilyn cais rhesymol;
- Mae gwefan (www.abergellipower.co.uk) yn cynnig gwybodaeth am y Prosiect a mynediad at ddogfennau, ac yn rhoi cyfle i ymwelwyr holi cwestiynau neu gynnig sylwadau ar-lein;
- Cyfeiriad e-bost y gall unigolion ysgrifennu ato (darperir hynny ar ddiwedd y ddogfen hon);
- Blwch post Rhadbost y gallu pobl anfon cwestiynau neu sylwadau ato (darperir hynny ar ddiwedd y ddogfen hon);
- Bydd APL hefyd yn hysbysu'r gymuned leol am y Prosiect a'r digwyddiadau ymgynghori trwy bosteri yn y gymuned leol, hysbysebion mewn papurau newydd a sylw gan y cyfryngau.
- Bydd APL hefyd yn cysylltu ag amrywiaeth eang a randdeiliaid lleol. Bydd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig, y gymuned leol, grwpiau diddordeb arbennig (yn cynnwys "*grwpiau anodd eu cyrraedd*") megis pobl ifanc, yr henoed a phobl anabl), a grwpiau busnes lleol. Bydd APL yn rhoi gwybodaeth iddynt am y Prosiect ac yn cynnal gweithgareddau briffio pan fo hynny'n briodol.

Lle gellir gwneud hynny, ystyrir a rhoddir sylw i sylwadau ac ymholiadau a dderbynnir dros y ffôn (a thrwy'r post, e-byst, neu negeseuon ffacs) o fewn y cynllun, a sylwadau a nodir. Derbynnir sylwadau am gyfnod o 35 diwrnod yn dilyn lansio'r cyfnod ymgynghori statudol.

Dylai unigolion a sefydliadau sy'n dymuno ymateb gynnwys eu henw a chyfeiriad y gellir anfon gohebiaeth iddo am yr ymateb. Gellir gwneud ymatebion yn gyhoeddus, yn amodol ar ddeddfau diogelu data.

Caiff sylwadau a wneir yn ystod unrhyw gam o'r broses ymgynghori eu cofnodi a'u hystyried yn ofalus gan APL fel rhan o'r broses o ddarparu'r cynigion terfynol ar gyfer ei gais i'r Arolygiaeth Cynllunio. Bydd yr Adroddiad ynghych yr Ymgynghoriad, a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am DCO, yn disgrifio'r gweithgareddau ymgynghori, yr adborth a dderbynnir ac ymateb APL i'r materion a godir yn ystod y broses.

DYDDIAD ALLWEDDOL	GWEITHGAREDD
2 ^{il} o Ionawr 2018	Cyhoeddi'r Datganiad ynghylch Ymgynghori â'r Cyhoedd
16 ^{eg} o Ionawr 2018	Cyfnod ymgynghori yn cychwyn
ARDDANGOSFEYDD CYHOEDDUS	
7 ^{fed} o Chwefror 2018 16.00 – 19.00	Neuadd Eglwys Llangyfelach, Heol Abertawe, Llangyfelach, Abertawe SA5 7JA
8 ^{fed} o Chwefror 2018 15.30 – 18.30	Canolfan Adnoddau Forge Fach, Heol Hebron, Clydach, Abertawe SA6 5EJ
9 ^{fed} Chwefror 2018 17.00 – 20.00	Neuadd Bentref Tircoed, Y Cyswllt, Tircoed SA4 9QZ
10 ^{fed} o Chwefror 2018 10.00 – 13.00	Neuadd Les Felindre, Felindre, Abertawe SA5 7NA
19 ^{eg} o Chwefror 2018	Cyfnod ymgynghori yn dod i ben
Ail Chwarter 2018	Cyflwyno'r cais am DCO
Ail Chwarter 2018	Arolygiaeth Cynllunio yn hysbysu'n gyhoeddus ei bod wedi derbyn y cais ac yn pennu'r amserlen archwilio, a fydd yn debygol o redeg yn ystod trydydd chwarter 2018.

Manylion cysylltu

Mae APL yn croesawu ymholiadau a sylwadau:

Gwefan: www.abergellipower.co.uk

E-bost: info@abergellipower.co.uk

Post: Rhadbost ABERGELLI POWER

Ffôn: 01792 957 026

RHESTR ACRONYMAU

Acronym	Term
PEIR 2018	Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol 2018
NTS 2018	Crynodeb Annhechnegol 2018
AC	Aelod o'r Cynulliad
APL	Abergelli Power Ltd
CCZ	Parth Ymgynghori Craidd
DCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu
EIA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
AS	Aelod Seneddol
OCZ	Parth Ymgynghori Allanol
SoCC	Datganiad ynghylch Ymgynghori â'r Gymuned

Appendix 9.B: Phase 2 2018 SoCC and 2018 SoCC Notice

9.B III Published 2018 SoCC Notice in South Wales Evening Post (2nd January 2018)

South Wales Evening Post

PRINT | ONLINE | MOBILE

walesonline.co.uk

TUESDAY, JANUARY 2, 2018

10 days to go
Where is our
lagoon Mr Cairns?



CITY'S ON THE UP AND UP

HOUSE PRICE INCREASE 'ABOVE NATIONAL AVERAGE'

PAGES 6&7

SWANS ENTER SAK RACE?

ANOTHER HAMMERS FRONTMAN LINKED

BACK PAGE

FRESH JOBS IN PIPELINE AS ENERGY PLANT BID REVIVED

Plan put on hold in 2014

Jason Evans
PLANS to build a gas-fired power station on land north of Swansea are back on the table after a gap of more than two-and-a-half years.
Full story: page 5

INSIDE

CAN YOU FIND A HOME FOR THESE HOUNDS?

PAGE 3

PLUS

WHAT IT'S LIKE TO STRIP OFF ON TELLY

PAGE 14

2FOR1*ENQUIRE WITHIN STORE

DON'T FORGET KIDS GO FREE!

FREE GLASSES
With an NHS voucher includes single vision, bifocals or varifocal lenses
GUARANTEED TO BEAT ANY PRICE

£5.00 EYE TEST
(valid until 26th February 2018) with this advert

30% OFF

OAKLEY & RAYBAN GLASSES

CONTACT LENS SPECIALIST

THE Optic SHOP

Swansea 01792 653 339
Porthcawl 01656 784 944
Crosshands 01269 267 090
Carmarthen 01267 221 919



STATEMENT OF COMMUNITY CONSULTATION NOTICE

Abergelli Power Ltd (APL) proposes to construct and operate a gas-fired power generation plant and connections to the gas and electricity networks on land adjacent to the Felindre Gas Compressor Station at Abergelli Farm, Felindre, Swansea SA5 7NN (the "Project"). The proposed site is situated north of Swansea in the City & County of Swansea (north of M4, Junction 46), approximately 1km southeast of Felindre and 1.5km north of Llanyfelach.

The Project includes a Power Generation Plant and Laydown Area/Maintenance Compound, an Access Road, a gas connection, and an electrical connection that would connect the power generation plant to the existing nearby transmission networks. The Power Generation Plant would have rated electrical output of up to 299 MW of electricity. Subject to public consultation, planning and financing, it could enter commercial operation in 2022.

The Power Generation Plant is classified as a Nationally Significant Infrastructure Project under the Planning Act 2008 (as amended) (the "Planning Act") which means a Development Consent Order (DCO) is required to build, operate and maintain it. In the context of generating stations in Wales, the Planning Act 2008 restricts what can be applied for through the DCO process to development that is integral to and forms part of the NSIP. For the APL Project, the integral elements are the Power Generation Plant, the Laydown Area/Maintenance Compound and the Access Road. The APL DCO application will not seek consent to construct and operate the gas or electrical connections; instead a planning application will be made under the Town and Country Planning Act 1990 or permitted development rights will be utilised (as applicable). However, compulsory acquisition powers for the land and rights required to construct, operate and maintain the gas and electrical connections will be included within the DCO application.

Due to the nature and size of the Project, APL is undertaking an Environmental Impact Assessment (EIA). Therefore the Project is classified as EIA development. The EIA will consider the potential effects, both positive and negative, of the Project on topics including air and water quality, noise, landscape and visual effect, traffic, local ecology, geology and ground conditions, historic environment, and socio-economics.

The DCO application will be processed and examined by the Planning Inspectorate who will make a recommendation to the Secretary of State for Business Energy and Industrial Strategy. The final decision on the application is made by the Secretary of State.

Consultation with local people, businesses, and other organisations is an essential part of the DCO application process and will help to influence the final design of the Project. Only after all inputs have been considered will designs be finalised and the application for a DCO be submitted.

The Government's policies in relation to Nationally Significant Infrastructure Projects are set out in National Policy Statements (NPSs). NPS EN-1 (Energy) states that "gas will continue to play an important role in the electricity sector- providing vital flexibility to support an increasing amount of low-carbon generation and to maintain security of supply." The need for the Project is established through NPSs and is therefore not a topic of consultation.

APL has prepared a statement, known as a Statement of Community Consultation (SoCC), which sets out how it proposes to consult people living and working in the vicinity of the site about the proposed DCO application.

APL carried out both statutory and non-statutory consultation as part of its work in 2014. As part of the 2014 statutory consultation, a SoCC was published after consultation with City & County of Swansea Council as the relevant local planning authority and the current SoCC is closely modelled on the 2014 SoCC. APL have had regard to the responses received as part of the 2014 non-statutory and statutory consultations and these have influenced the Project design that is now being consulted on in 2018.

The SoCC is available for inspection at www.abergellipower.co.uk and at the locations listed in the following table (opening times vary).

	Swansea Central Library Civic Centre Oystermouth Road Swansea SA1 3SN (01792) 636464	Clydach Library High Street Clydach, Swansea SA6 5LN (01792) 843300	Gorseinon Library 15 West Street Gorseinon Swansea SA4 4AA (01792) 516780	Morrison Library Treharne Road Morrison Swansea SA6 7AA (01792) 516770	Pontarddulais Library St Michael's Avenue Pontarddulais Swansea SA4 8TE (01792) 882822
Monday	CLOSED	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00 - 17.00
Tuesday	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-17.00
Wednesday	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-17.00
Thursday	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-17.00
Friday	8.30-20.00	9.30-18.30	9.00-19.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-18.00
Saturday	10.00-16.00	9.30-16.30	9.00-17.00	9.00-17.00	9.00- 13.00
Sunday	10.00-16.00	CLOSED	CLOSED	CLOSED	CLOSED

Households and businesses within an approximate 3.5km radius of the power generation plant site will receive a leaflet about the Project on or around 16th January 2018. Exhibitions about the Project will be held at these locations:

Wednesday 7th February 16.00 - 19.00	Llanyfelach Church Hall, Swansea Road, Llanyfelach, Swansea SA5 7JA
Thursday 8th February 15.30 - 18.30	Forge Fach Resource Centre, Hebron Road, Clydach, Swansea SA6 5EJ
Friday 9th February 17.00 - 20.00	Tircoed Village Hall, Y Cyswilt, Tircoed SA4 9QZ
Saturday 10th February 10.00 - 13.00	Felindre Welfare Hall, Felindre, Swansea SA5 7NA

From 16th January 2018, information about the proposed Project, including an information leaflet, a Preliminary Environmental Information Report (updated from 2014 consultation) and a non-technical summary (which contain a preliminary assessment of the effects of the Project) will be made available for inspection at the same locations and on the APL website. The consultation period will be 35 days long and take place from 16th January until 19th February 2018 (inclusive). We would welcome your views on or before 5.00pm on 19th February 2018. Please include your name and an address. Responses may be made public, subject to data protection laws.

Website: www.abergellipower.co.uk
 Email: info@abergellipower.co.uk
 Post: Freepost ABERGELLI POWER
 Phone: 01792 957 026

Hysbysiad am Ddatganiad ynghylch Ymgynghori â'r Gymuned

Mae Abergelli Power Ltd (APL) yn bwriadu adeiladu a gweithredu gwaith cynhyrchu pŵer sy'n llosgi nwy a chysylltiadau â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir gerllaw Gorsaf Gywasgu Nwy Felindre yn Fferm Abergelli, Felindre, Abertawe SA5 7NN (y "Prosiect") Lleolir y safle arfaethedig tua'r gogledd o Abertawe yn Ninas a Sir Abertawe (i'r gogledd o'r M4, Cyffordd 46), oddeutu 1km i'r de-ddwyrain o Felindre ac 1.5km i'r gogledd o Langyfelach.

Mae'r Prosiect yn cynnwys Gwaith Cynhyrchu Pŵer a Llecyn Storio/Cwrt Cynnal, Ffordd Fynediad, cysylltiad nwy, a chysylltiad trydanol a fyddai'n cysylltu'r gwaith cynhyrchu pŵer â'r rhwydweithiau trosglwyddo presennol gerllaw. Byddai gan y Gwaith Cynhyrchu Pŵer allbwn trydanol wedi'i raddio o hyd at 299 MW o drydan. Yn amodol ar ymgynghori â'r cyhoedd, cynllunio a chyllid, gallai ddechrau gweithredu'n fasnachol yn 2022.

Ystyrir y Gwaith Cynhyrchu yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (y "Ddeddf Cynllunio") sy'n golygu bod angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) i'w adeiladu, ei weithredu a'i gynnal. Yng nghyd-destun gorsafoedd cynhyrchu yng Nghymru, mae Deddf Cynllunio 2008 yn cyfyngu ar yr hyn y gellir gwneud cais amdano drwy'r broses DCO i ddatblygiad sy'n rhan annatod ac yn ffurfio rhan o'r NSIP. Ar gyfer Prosiect APL, yr elfennau annatod yw'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Llecyn Storio/Cwrt Cynnal a'r Ffordd Fynediad. Ni fydd cais APL am DCO yn ceisio caniatâd i adeiladu a gweithredu'r cysylltiadau nwy a thrydan; yn hytrach gwneir cais cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu defnyddir hawliau datblygu a ganiateir (fel sy'n gymwys). Fodd bynnag, cynhwysir pwerau caffael gorffodol ar gyfer y tir a'r hawliau sy'n ofynnol i adeiladu, gweithredu a chynnal y cysylltiadau nwy a thrydanol o fewn y cais am DCO.

Oherwydd natur a maint y Prosiect, mae APL yn ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA). Felly, ystyrir y prosiect yn ddatblygiad EIA. Bydd yr EIA yn ystyried effeithiau posibl, cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd, y Prosiect ar bynciau'n cynnwys ansawdd aer a dŵr, sŵn, tirwedd ac effaith weledol, traffig, ecoleg leol, daeareg ac amodau daear, amgylchedd hanesyddol, ac economeg gymdeithasol.

Caiff y cais am DCO ei brosesu a'i archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn gwneud argymhellid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Gwneir y penderfyniad terfynol ar y cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae ymgynghori â phobl, busnesau a sefydliadau lleol eraill yn rhan hanfodol o'r broses ymgeisio am DCO a bydd yn helpu i ddylanwadu ar gynllun terfynol y Prosiect. Dim ond ar ôl ystyried yr holl feirbynnau y bydd y cynlluniau'n cael eu cwblhau a bydd y cais am DCO yn cael ei gyflwyno.

Mae polisiâu'r Llywodraeth mewn cysylltiad â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'u cyflwyno yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs). Mae NPS EN-1 (Ynni) yn nodi y bydd "nwy yn parhau i wneud cyfraniad pwysig yn y sector trydan - gan ddarparu hyblygrwydd hanfodol i gefnogi lefel gynyddol o gynhyrchu carbon isel ac i sicrhau diogelwch y cyflenwad." Mae'r angen am y Prosiect wedi'i gadarnhau trwy NPSs ac felly nid yw'n destun ymgynghori.

Mae APL wedi paratoli datganiad, a elwir yn Ddatganiad ynghylch Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC), sy'n amlinellu sut mae'n bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r safle ynghylch y cais arfaethedig am DCO.

Cynhaliodd APL ymgynghoriad statudol ac anstatudol fel rhan o'i waith yn 2014. Fel rhan o ymgynghoriad statudol 2014, cyhoeddwyd SoCC ar ôl ymgynghori â Chyngor Dinas a Sir Abertawe fel yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol ac mae'r SoCC presennol wedi'i fodolu'n agos ar SoCC 2014. Mae APL wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o ymgynghoriadau anstatudol a statudol 2014, ac mae'r rhain wedi dylanwadu ar gynllun y Prosiect y ymgynghori arno nawr yn 2018.

Mae'r SoCC ar gael i'w archwilio yn www.abergellipower.co.uk ac yn y lleoliadau a restrir yn y tabl dilynol (mae amseroedd agor yn amrywio).

	Llyfrgell Ganolog Abertawe Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumliwynarth, Abertawe SA1 3SN (01792) 636464	Llyfrgell Clydach Y Stryd Fawr Clydach, Abertawe SA6 5LN (01792) 843300	Llyfrgell Gorseion 15 Stryd y Gorllewin, Gorseion, Abertawe SA4 4AA (01792) 516780	Llyfrgell Treforys Heol Treharne, Treforys Abertawe SA6 7AA (01792) 516770	Llyfrgell Pontarddulais Rhodfa San Mihangel, Pontarddulais, Swansea SA4 8TE (01792) 882822
Dydd Llun	AR GAU	9.30 - 17.30	9.00-18.00	9.00 - 18.00	9.00 - 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Mawrth	8.30 - 20.00	9.30 - 17.30	9.00-18.00	9.00 - 18.00	9.00 - 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Mercher	8.30 - 20.00	9.30 - 17.30	9.00-18.00	9.00 - 18.00	9.00 - 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Iau	8.30 - 20.00	9.30 - 17.30	9.00-18.00	9.00 - 18.00	9.00 - 13.00 a 14.00 - 17.00
Dydd Gwener	8.30 - 20.00	9.30 - 18.30	9.00-19.00	9.00 - 18.00	9.00 - 13.00 a 14.00 - 18.00
Dydd Sadwrn	10.00 - 16.00	9.30 - 16.30	9.00-17.00	9.00 - 17.00	9.00 - 13.00
Dydd Sul	10.00 - 16.00	AR GAU	AR GAU	AR GAU	AR GAU

Bydd cartrefi a busnesau o fewn radiws o oddeutu 3.5km o safle'r gwaith cynhyrchu pŵer yn cael taflen am y Prosiect ar neu o gwmpas yr 16eg o Ionawr 2018.

Cynhelir arddangosfeydd am y Prosiect yn y lleoliadau hyn:

Dydd Mercher y 7 ^{fed} o Chwefror 16.00 - 19.00	Neuadd yr Eglwys Llanyfelach , Heol Abertawe, Llanyfelach, Abertawe SA5 7JA
Dydd Iau yr 8 ^{fed} o Chwefror 15.30 - 18.30	Canolfan Adnoddau Forge Fach , Ffordd Hebron, Clydach, Abertawe SA6 5EJ
Dydd Gwener y 9 ^{fed} o Chwefror 17.00 - 20.00	Neuadd y Pentref, Tiroed , Y Cyswilt, Tiroed SA4 9QZ
Dydd Sadwrn y 10 ^{fed} o Chwefror 10.00 - 13.00	Neuadd Les Felindre , Felindre, Abertawe SA5 7NA

O 16 Ionawr 2018, bydd gwybodaeth ynghylch y Prosiect arfaethedig, gan gynnwys taflen wybodaeth, Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (wedi'i ddiweddarw o ymgynghoriad 2014) a chrynodeb annhechnegol (sy'n cynnwys asesiad rhagarweiniol o effeithiau'r Prosiect) ar gael i'w harchwilio yn yr ymgyddiaeth ac ar y wefan APL.

Bydd y cynnod ymgynghori yn parhau am 35 diwrnod a bydd yn digwydd o'r 16eg o Ionawr tan y 19eg o Chwefror 2018 (yn gynhwysol). Byddem yn croesawu'ch barn ar neu cyn 5.00yh ar y 19eg o Chwefror 2018. Cynhwyswch eich enw a'ch cyfeiriad. Gellir gwneud ymatebion yn gyhoeddus, yn amodol ar ddeddf diogelu data.

Gwefan: www.abergellipower.co.uk

E-bost: info@abergellipower.co.uk

Post: Freepost ABERGELLI POWER

Ffôn: 01792 957 026

Appendix 9.B: Phase 2 2018 SoCC and 2018 SoCC Notice

9.B IV Published 2018 SoCC Notice in South Wales Evening Post (9th January 2018)

South Wales Evening Post

PRINT | ONLINE | MOBILE

walesonline.co.uk

TUESDAY, JANUARY 9, 2018

3 days to go
Where is our
lagoon Mr Cairns?



NIGEL'S FIGHT WITH ILLNESS



REFEREE SUFFERS BULIMIA RELAPSE OVER CHRISTMAS

PAGE 3

MURDER ACCUSED IN COURT

CHARGE AFTER MUM FOUND DEAD



PAGE 3

NEW CAREER ON THE ROPES



MEET WRESTLING HOPEFULS

PAGES 16-17

I THOUGHT: 'IF THINGS GO WRONG, YOU COULD DIE'



EVENING Post reporter Geraint Thomas was attacked at knife-point on his way into work last month.

Today, he reveals how the ordeal has changed his life, and why more should be done to prevent others suffering the same fate.

■ Full story: pages 6-7

Mugging victim reveals true impact of suffering ordeal

INSIDE



SWANS IN FOR FULHAM STAR

SPORT

PLUS



CASH for COMMUNITIES

WESTERN POWER DISTRIBUTION

WIN A SHARE OF £25,000

TOKEN COLLECT: PAGE 18

SALE NOW ON UP TO 25% OFF RRP'S

01792 586160

Unit 12, Cwmdudud Est, Carmarthen Road, Swansea
www.tilerackbathroomcentre.co.uk

TILE RACK & BATHROOMS INC

REMAN LAUFEN DODURAVIT VADO



STATEMENT OF COMMUNITY CONSULTATION NOTICE

Abergelli Power Ltd (APL) proposes to construct and operate a gas-fired power generation plant and connections to the gas and electricity networks on land adjacent to the Felindre Gas Compressor Station at Abergelli Farm, Felindre, Swansea SA5 7NN (the "Project"). The proposed site is situated north of Swansea in the City & County of Swansea (north of M4, Junction 46), approximately 1km southeast of Felindre and 1.5km north of Llangyfelach.

The Project includes a Power Generation Plant and Laydown Area/Maintenance Compound, an Access Road, a gas connection, and an electrical connection that would connect the power generation plant to the existing nearby transmission networks. The Power Generation Plant would have rated electrical output of up to 299 MW of electricity. Subject to public consultation, planning and financing, it could enter commercial operation in 2022.

The Power Generation Plant is classified as a Nationally Significant Infrastructure Project under the Planning Act 2008 (as amended) (the "Planning Act") which means a Development Consent Order (DCO) is required to build, operate and maintain it. In the context of generating stations in Wales, the Planning Act 2008 restricts what can be applied for through the DCO process to development that is integral to and forms part of the NSIP. For the APL Project, the integral elements are the Power Generation Plant, the Laydown Area/Maintenance Compound and the Access Road. The APL DCO application will not seek consent to construct and operate the gas or electrical connections; instead a planning application will be made under the Town and Country Planning Act 1990 or permitted development rights will be utilised (as applicable). However, compulsory acquisition powers for the land and rights required to construct, operate and maintain the gas and electrical connections will be included within the DCO application.

Due to the nature and size of the Project, APL is undertaking an Environmental Impact Assessment (EIA). Therefore the Project is classified as EIA development. The EIA will consider the potential effects, both positive and negative, of the Project on topics including air and water quality, noise, landscape and visual effect, traffic, local ecology, geology and ground conditions, historic environment, and socio-economics.

The DCO application will be processed and examined by the Planning Inspectorate who will make a recommendation to the Secretary of State for Business Energy and Industrial Strategy. The final decision on the application is made by the Secretary of State.

Consultation with local people, businesses, and other organisations is an essential part of the DCO application process and will help to influence the final design of the Project. Only after all inputs have been considered will designs be finalised and the application for a DCO be submitted.

The Government's policies in relation to Nationally Significant Infrastructure Projects are set out in National Policy Statements (NPSs). NPS EN-1 (Energy) states that "gas will continue to play an important role in the electricity sector- providing vital flexibility to support an increasing amount of low-carbon generation and to maintain security of supply." The need for the Project is established through NPSs and is therefore not a topic of consultation.

APL has prepared a statement, known as a Statement of Community Consultation (SoCC), which sets out how it proposes to consult people living and working in the vicinity of the site about the proposed DCO application.

APL carried out both statutory and non-statutory consultation as part of its work in 2014. As part of the 2014 statutory consultation, a SoCC was published after consultation with City & County of Swansea Council as the relevant local planning authority and the current SoCC is closely modelled on the 2014 SoCC. APL have had regard to the responses received as part of the 2014 non-statutory and statutory consultations and these have influenced the Project design that is now being consulted on in 2018.

The SoCC is available for inspection at www.abergellipower.co.uk and at the locations listed in the following table (opening times vary).

	Swansea Central Library Civic Centre Oystermouth Road Swansea SA1 3SN (01792) 636464	Clydach Library High Street Clydach, Swansea SA6 5LN (01792) 843300	Gorseinon Library 15 West Street Gorseinon Swansea SA4 4AA (01792) 516780	Morrison Library Treharne Road Morrison Swansea SA6 7AA (01792) 516770	Pontarddulais Library St Michael's Avenue Pontarddulais Swansea SA4 8TE (01792) 882822
Monday	CLOSED	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00 - 17.00
Tuesday	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-17.00
Wednesday	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-17.00
Thursday	8.30-20.00	9.30-17.30	9.00-18.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-17.00
Friday	8.30-20.00	9.30-18.30	9.00-19.00	9.00-18.00	9.00- 13.00 and 14.00-18.00
Saturday	10.00-16.00	9.30-16.30	9.00-17.00	9.00-17.00	9.00- 13.00
Sunday	10.00-16.00	CLOSED	CLOSED	CLOSED	CLOSED

Households and businesses within an approximate 3.5km radius of the power generation plant site will receive a leaflet about the Project on or around 16th January 2018. Exhibitions about the Project will be held at these locations:

Wednesday 7th February 16.00 - 19.00	Llangyfelach Church Hall , Swansea Road, Llangyfelach, Swansea SA5 7JA
Thursday 8th February 15.30 - 18.30	Forge Fach Resource Centre , Hebron Road, Clydach, Swansea SA6 5EJ
Friday 9th February 17.00 - 20.00	Tircoed Village Hall , Y Cyswllt, Tircoed SA4 9QZ
Saturday 10th February 10.00 - 13.00	Felindre Welfare Hall , Felindre, Swansea SA5 7NA

From 16th January 2018, information about the proposed Project, including an information leaflet, a Preliminary Environmental Information Report (updated from 2014 consultation) and a non-technical summary (which contain a preliminary assessment of the effects of the Project) will be made available for inspection at the same locations and on the APL website. The consultation period will be 35 days long and take place from 16th January until 19th February 2018 (inclusive). We would welcome your views on or before 5.00pm on 19th February 2018. Please include your name and an address. Responses may be made public, subject to data protection laws.

Website: www.abergellipower.co.uk
 Email: info@abergellipower.co.uk
 Post: Freepost ABERGELLI POWER
 Phone: 01792 957 026

Hysbysiad am Ddatganiad ynghylch Ymgynghori â'r Gymuned

Mae Abergelli Power Ltd (APL) yn bwriadu adeiladu a gweithredu gwaith cynhyrchu pŵer sy'n llosgi nwy a chysylltiadau â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir gerllaw Gorsaf Gywasgu Nwy Felindre yn Fferm Abergelli, Felindre, Abertawe SA5 7NN (y "Prosiect") Lleolir y safle arfaethedig tua'r gogledd o Abertawe yn Ninas a Sir Abertawe (i'r gogledd o'r M4, Cyffordd 46), oddeutu 1km i'r de-ddwyrain o Felindre ac 1.5km i'r gogledd o Langyfelach.

Mae'r Prosiect yn cynnwys Gwaith Cynhyrchu Pŵer a Llecyn Storio/Cwrt Cynnal, Ffordd Fynediad, cysylltiad nwy, a chysylltiad trydanol a fyddai'n cysylltu'r gwaith cynhyrchu pŵer â'r rhwydweithiau trosglwyddo presennol gerllaw. Byddai gan y Gwaith Cynhyrchu Pŵer allbwn trydanol wedi'i raddio o hyd at 299 MW o drydan. Yn amodol ar ymgynghori â'r cyhoedd, cynllunio a chyllid, gallai ddechrau gweithredu'n fasnachol yn 2022.

Ystyrir y Gwaith Cynhyrchu yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (y "Ddeddf Cynllunio") sy'n golygu bod angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) i'w adeiladu, ei weithredu a'i gynnal. Yng nghyd-destun gorsafoedd cynhyrchu yng Nghymru, mae Deddf Cynllunio 2008 yn cyfyngu ar yr hyn y gellir gwneud cais amdano drwy'r broses DCO i ddatblygiad sy'n rhan annatod ac yn ffurfio rhan o'r NSIP. Ar gyfer Prosiect APL, yr elfennau annatod yw'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Llecyn Storio/Cwrt Cynnal a'r Ffordd Fynediad. Ni fydd cais APL am DCO yn ceisio caniatâd i adeiladu a gweithredu'r cysylltiadau nwy a thrydan; yn hytrach gwneir cais cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu defnyddir hawliau datblygu a ganiateir (fel sy'n gymwys). Fodd bynnag, cynhwysir pwerau caffael gorffodol ar gyfer y tir a'r hawliau sy'n ofynnol i adeiladu, gweithredu a chynnal y cysylltiadau nwy a thrydanol o fewn y cais am DCO.

Oherwydd natur a maint y Prosiect, mae APL yn ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA). Felly, ystyrir y prosiect yn ddatblygiad EIA. Bydd yr EIA yn ystyried effeithiau posibl, cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd, y Prosiect ar bynciau'n cynnwys ansawdd aer a dŵr, sŵn, tirwedd ac effaith weledol, traffig, ecoleg leol, daeareg ac amodau daear, amgylchedd hanesyddol, ac economeg gymdeithasol.

Caiff y cais am DCO ei brosesu a'i archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn gwneud argymhellid Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Gwneir y penderfyniad terfynol ar y cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae ymgynghori â phobl, busnesau a sefydliadau lleol eraill yn rhan hanfodol o'r broses ymgeisio am DCO a bydd yn helpu i ddylanwadu ar gynllun terfynol y Prosiect. Dim ond ar ôl ystyried yr holl feirbynnau y bydd y cynlluniau'n cael eu cwblhau a bydd y cais am DCO yn cael ei gyflwyno.

Mae polisiâu'r Llywodraeth mewn cysylltiad â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'u cyflwyno yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs). Mae NPS EN-1 (Ynni) yn nodi y bydd "nwy yn parhau i wneud cyfraniad pwysig yn y sector trydan - gan ddarparu hyblygrwydd hanfodol i gefnogi lefel gynyddol o gynhyrchu carbon isel ac i sicrhau diogelwch y cyflenwad." Mae'r angen am y Prosiect wedi'i gadarnhau trwy NPSs ac felly nid yw'n destun ymgynghori.

Mae APL wedi paratoli datganiad, a elwir yn Ddatganiad ynghylch Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC), sy'n amlinellu sut mae'n bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r safle ynghylch y cais arfaethedig am DCO.

- Mae'r Strategaeth Draenio Amlinellol ar gyfer dŵr wyneb a dŵr brwnt ar gyfer y Prosiect wedi ei lunio er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ansawdd dŵr wyneb a'r risg o lifogydd;
- Monitro ansawdd aer i fonitro unrhyw effeithiau sylweddol

- tebygol i SINC Lletty Morfil o ddyddodion llwch yn sgil gweithgareddau adeiladu;
- Cynllun Rheoli Ecolegol i amddiffyn cynefinoedd sensitif;
 - Mae modelu gwasgariad a modelu sŵn wedi pennu uchder isafsymiol ac uchafsymiol y simnai er mwyn osgoi effeithiau sylweddol tebygol o allyriadau gweithredol (dyddodi) ac allbynnau pŵer sŵn;
 - Osgoi Coetir Hynafol a chynefinoedd sensitif eraill trwy lunio, a chreu Llecyn Lliniaru'r Effaith ar Ecoleg;
 - Bydd Cynllun Tirlunio ac Adfer Amlinellol yn darparu manylion ynghylch sut caiff mannau eu hadfer ar ôl adeiladu. Mae Strategaeth Tirwedd Amlinellol ddangosol wedi ei chynnwys yn y PEIR.
- Caiff Strategaeth Oleuo Amlinellol hefyd ei pharatoi ar gyfer y Cais am DCO;
 - Gwneir archwiliad o'r ddaear ar ô cael caniatâd ond cyn cychwyn adeiladu. Bydd hyn yn llywio asesiad risg mwyngloddio a'r gofyniad am arolwg o adnoddau mwynau;
 - Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu sy'n nodi rheolaeth traffig adeiladu, gwelliannau i briffyrdd ac arolygon o gyflwr (pan fo angen hynny), ac ymrwymiad i ddarparu Cynllun Teithio Adeiladu Staff;
 - Caiff Cynllun Ymchwiliad Ysgrifenedig Archeolegol ei baratoi cyn i'r adeiladu ddechrau.

Mae PEIR 2018 wedi asesu effeithiau arwyddocaol y Prosiect gan gynnwys y lliniaru ymgorfforedig a nodir uchod.

3. Methodoleg: Arwyddoâad Effeithiau

Mae'r *Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynnal EIA ar gyfer y Prosiect. EIA yw'r broses o nodi, gwerthuso, a lle gellir gwneud hynny, lliniaru effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol datblygiad arfaethedig. Mae'n annog nodi a gwerthuso cynnar effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl datblygiad arfaethedig ac yn galluogi ersurau lliniaru priodol i osgoi, lleihau neu wrthbwysu effeithiau andwyol. Mae'r asesiad o'r effeithiau wedi ei gyflwyno mewn cyfres o benodau y canolbwyntir arnynt gan feysydd pwnc arbenigol, megis ecoleg, daeareg, ac amgylchedd hanesyddol.*

3.1 Beth yw'r derbynyddion a sut cânt eu nodi yn y PEIR?

Ar gyfer pob maes pwnc arbenigol, nodir 'derbynyddion' sensitif y gallai'r Prosiect effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys organebau byw, cynefinoedd, adnoddau naturiol, derbynyddion yn yr amgylchedd hanesyddol neu ar y safle neu o'i hamgylch, a allai gael eu heffeithio'n andwyol yn ystod adeiladu'r Prosiect, wrth weithredu'r prosiect, neu yn ystod digomisiynu'r Prosiect.

Roedd y fethodoleg asesu a ddefnyddid ar gyfer y PEIR yn fras yr un peth ar gyfer pob maes pwnc. Ar gyfer pob pwnc, mae asesiad o'r arwyddocad wedi ei lywio gan sensitifrwydd yr amgylchiadau neu'r

cymeriad amgylcheddol presennol neu sylfaenol, ac ehangder y newid yn yr amgylchiadau presennol neu'r cymeriad sylfaenol y disgwylir iddo ddigwydd o ganlyniad i'r Prosiect.

Asesir gwerth neu sensitifrwydd y derbynyddion yn unol â phwysigrwydd cymharol y nodweddion amgylcheddol presennol ar y safle neu gerllaw'r safle, neu drwy sensitifrwydd y derbynyddion, h.y. a yw'n debygol y byddant yn ddigon cadarn fel na fydd y Prosiect yn effeithio arnynt neu fel arall byddant yn hynod o agored i'r mathau o effeithiau sy'n debygol o ddigwydd.

Tabl 3 sy'n darparu diffiniadau cyffredinol o'r meini prawf sensitifrwydd a ddefnyddiwyd yn yr asesiad.

Tabl 3: Canllawiau Generig ar gyfer Asesu Gwerth/Sensitifrwydd

Gwerth / Sensitifrwydd	Ehangder
Uchel iawn	Mae gan y derbynnydd ychydig iawn o allu neu nid oes ganddo allu i ymgorffori newid heb newid ei gymeriad presennol yn sylfaenol, mae iddo werth amgylcheddol uchel iawn, neu mae ganddo bwysigrwydd rhyngwladol.
Uchel	Isel yw gallu'r derbynnydd fawr i ymgorffori newid heb newid ei gymeriad presennol yn sylfaenol, mae ganddo werth amgylcheddol uchel, neu mae ganddo bwysigrwydd cenedlaethol.
Canolig	Canolig yw gallu'r derbynnydd i ymgorffori newid heb newid ei gymeriad presennol yn sylweddol, mae ganddo rywfaint o werth amgylcheddol, neu mae ei bwysigrwydd rhanbarthol.
Isel	Mae'r derbynnydd yn goddef newid heb andwyo ei gymeriad, mae ei werth amgylcheddol yn isel, neu mae ei bwysigrwydd yn lleol.
Dibwys	Mae'r derbynnydd yn gallu grthsefyll newid ac ychydig iawn o werth amgylcheddol sydd ganddo.

3.2 Sut mesurir effeithiau amgylcheddol yn y PEIR?

Nodir ehangder yr effeithiau posibl ar amgylchiadau amgylcheddol sylfaenol trwy ystyried y Prosiect. Lle nad yw'r cynllun wedi ei bennu eto, rydym wedi asesu'r parmedrau ac asesu'r senario "achos gwaethaf" i sicrhau bod yr asesiad yn gadarn gan ddisgrifio graddau llawn yr effeithiau tebygol. Weithiau, cyfeirir at bennu paramedrau i'w hasesu yn y modd hwn fel dull "Amlen Rochdale". Mae'r asesiad o ehanger newidiadau yn ystyried maint a graddfa'r newid o'r sefyllfa bresennol o ganlyniad i'r effaith dan sylw; a hyd a childroadedd yr effaith, yn ogystal ag ystyried safonau neu ganllawiau deddfwriaethol neu bolisi.

I'r perwyl hwn, os oes hyblygrwydd o ran paramedrau'r Prosiect (megis uchder y simnai) wedi ei ddarparu, mae APL wedi asesu'r achos gwaethaf realistig, ac ym mhob asesiad pwnc, eglurir beth mae hyn yn ei olygu.

Gan ystyried yr uchod, penderfynwyd y caiff pob maes pwnc sylw yn yr EIA ac eithrio ansawdd aer, yr uchder stac uchaf (45 m) yw'r 'achos gwaethaf'. O ran ansawdd aer, uchder isafsymiol staciau 35 m yw'r 'achos gwaethaf' oherwydd gwasgariad is.

Tabl 4 sy'n darparu diffiniadau cyffredinol o feini prawf ehangder effaith. Ym mhob pennod arbenigol yn y PEIR hwn, esbonnir meini prawf ehangder â chyfeiriad at y ddisgyblaeth benodol honno.

Tabl 4: Canllawiau Generig ar gyfer Asesu Ehangder

Canllawiau ynghylch	Ehangder
Uchel	Colled llwyr neu newid pwysig yn elfennau/nodweddion allweddol yr amgylchiadau sylfaenol sy'n golygu y bydd cymeriad/cyfansoddiad yr amgylchiadau sylfaenol wedi'u newid yn sylfaenol wedi'r datblygiad.
Canolig	Colled neu newid i un neu ragor o elfennau/nodweddion allweddol yr amgylchiadau sylfaenol sy'n golygu y bydd cymeriad/cyfansoddiad yr amgylchiadau sylfaenol wedi'u newid yn sylweddol wedi'r datblygiad.
Isel	Ychydig o newid o'i gymharu â'r amgylchiadau sylfaenol. Bydd newidiadau sy'n deillio o'r newid i'w canfod ond ni fyddant yn sylweddol; bydd cymeriad gwaelodol/cyfansoddiad yr amgylchiadau sylfaenol yn debyg i'r sefyllfa cyn y datblygiad.
Dibwys	Ychydig iawn o newid yn yr amgylchiadau sylfaenol. Prin y gellir dirnad newid; mae'n debyg i sefyllfa "dim newid".

3.3 Sut y mesurir effeithiau amgylcheddol yn y PEIR?

Cyfuniad o fawredd yr effaith a sensitifrwydd y derbynnydd sy'n penderfynu arwyddocâd yr effaith (Tabl 5). Er enghraifft, pan dybir bod derbynnydd yn sensitif iawn i newid yn dod i gysylltiad ag effaith amgylcheddol eang iawn, bydd yr effaith sy'n deillio o hynny ar y derbynnydd yn y dosbarth Mawr.

Gallai'r broblem effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y derbynnydd. Felly, nodir arwyddocâd yr effeithiau trwy

ddefnyddio graddfa saith pwynt, o: Andwyol Mawr; Andwyol Cymedrol; Ychydig yn Andwyol; Dibwys; Ychydig o Fudd; Budd Cymedrol; Budd Mawr. I wneud rhai asesiadau, defnyddiwyd barn broffesiynol. Os na wnaed hynny, nodir hyn yn y bennod pwnc.

Yn gyffredinol, ystyrir fod effeithiau Mawr neu Gymedrol yn **arwyddocaol**. Ystyrir effeithiau Bach neu Ddibwys yn rhai **ansylweddol**.

Tabl 5: Dosbarthiad Effeithiau

Ehangder	Gwerth a Sensitifrwydd Derbynnydd				
	Uchel iawn	Uchel	Canolig	Isel	Dibwys
Uchel	Mawr	Mawr	Cymedrol	Cymedrol	Bychan
Canolig	Mawr	Cymedrol	Cymedrol	Bychan	Dibwys
Isel	Cymedrol	Cymedrol	Bychan	Dibwys	Dibwys
Dibwys	Bychan	Bychan	Dibwys	Dibwys	Dibwys

4. Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol

Mae PEIR 2018 yn nodi'r pynciau amgylcheddol allweddol sydd wedi cael eu hasesu. Ar gyfer pob pwnc asesu, disgrifia'r PEIR ddull y fethdodoleg asesu, darpara wybodaeth bresennol ar yr amgylchedd lleol (y 'gwaelodlin' amgylcheddol), a disgrifia'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd hwnnw yn ystod yr adeiladu, y gweithredu a'r datgomisiynu. Ar gyfer pob pwnc asesu, ystyrir bod effeithiau datgomisiynu i'w cymharu â'r effeithiau yn ystod yr adeiladu ac ni chânt ragor o sylw yn yr NTS hwn ac eithrio Ansawdd Aer. Isod ceir crynodeb o'r meysydd pwnc amgylcheddol y mae'r PEIR yn adrodd arnynt.

4.1 Ansawdd Aer

Mae'r bennod hon wedi nodi'r derbynyddion y gallai'r Prosiect effeithio arnynt, o bosibl, ac mae wedi asesu'r tebygrwydd o effeithiau arwyddocaol ynghylch ansawdd aer, sef llwch yn ystod adeiladu ac allyriadau gweithredu.


Diweddarwyd astudiaeth bwrdd gwaith a gwybodaeth a gafwyd o wahanol ffynonellau gan gynnwys CCS a DEFRA o PEIR 2014 oherwydd y newidiadau yn y Prosiect, yn bennaf lleihau nifer Generaduron Tyrbinau Nwy.

Casglwyd data monitro ansawdd aer o safle monitro Parc Cwm Level, a defnyddiwyd hynny ar gyfer y modelu ansawdd aer a gyflawnwyd ar gyfer yr aseiad o effaith.

Tabl 6: Ffynonellau a Derbynyddion Anawdd Aer

Cyfnod	Ffynhonnell	Derbynnydd
Adeiladu a digomisiynu	Llwch ac allyriadau traffig	Anheddau preswyl a gweithwyr adeiladu o fewn 350 m o ffynonellau llwch posibl a 50 m o lwybrau adeiladu
		Derbynnyddion ecolegol o fewn 100 m a 50 m o'r lwybrau adeiladu
Gweithredu	Dyddodiad awyrol a chrynnodiad	Anheddau preswyl o fewn 10 km
		Derbynnyddion ecolegol (megis safleoedd dynodedig) o fewn 2 km

Ffigur 5: Derbynyddion Ansawdd Aer a Fodelwyd



4.1.1 Effeithiau Gweddillol

Mae'r asesiad o effeithiau gweddillol isod yn rhagdybio y gweithredir y lliniaru ymgorfforedig (a ddisgrifiwyd yn Adran 2.10).

Adeiladu'r Prosiect

Effeithiau ansawdd aer yn ystod adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol sy'n debygol o greu allyriadau llwch/gronynnau.

O ystyried sensitifrwydd isel y derbynyddion a nodir yn Ffigur 5, ar y cyd ag ehangder effaith Isel / Dibwys oherwydd y lliniaru ymgorfforedig, yn ystod yr adeiladu rhagwelir eu bod yn **Ddibwys, felly nid ydynt yn arwyddocaol.**

Gweithrediad y Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Mae effeithiau yn ystod y cyfnod gweithredu wedi'u cyfyngu i'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn unig. Gwnaed profion sensitifrwydd ar gyfer uchder y stac (rhwng 20 a 50 m); dangosodd model gwasgaru fanteision sylweddol pan gynyddodd uchder y stac i 32 m, o ran uchafswm lefelau'r crynodiadau NO₂ a CO₂.

Modelwyd, felly, uchder isafsymiol achos gwaethaf stac o 35 m o fewn paramedrau'r Cyfarpar Cynhyrchu. Ystyrir bod ehangder yr effeithiau ar grynoadau llygrwyr ar gyfer y Cyfarpar Cynhyrchu yn **Ddibwys** yn achos pob llygrydd a'r cyfnodau cyfartalog a ystyrir o fewn y modelu gwasgaru.

O'r herwydd, mae effeithiau ar ansawdd aer o ganlyniad i'r Prosiect yn **Ddibwys, felly nid ydynt yn arwyddocaol.**

Datgomisiynu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Pennod 6: Mae Ansawdd Aer wedi asesu effeithiau digomisiynu oherwydd maent yn wahanol i effeithiau adeiladu. Mae'r effeithiau datgomisiynu o

ansawdd aer yn deillio o chwalu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer. Fodd bynnag, ar sail sefyllfa anghysbell y derbynyddion ecolegol a phreswyl, rhagwelir bod yr effeithiaurhwng **Isel a Ddibwys, ac felly yn ansylweddol.**

4.1.2 **Casgliadau**

Ni nodwyd effeithiau sylweddol gweddilliol ar gyfer pob un o elfennau'r Prosiect, neu'r Prosiect yn ei gyfanrwydd oherwydd y lliniaru ymgorfforedig sydd wrth wraidd y cynllun. Felly nid oes angen unrhyw liniaru ychwanegol.

4.2 Sŵn a Dirgrynu

Mae effeithiau posibl sŵn a dirgrynu ar dderbynyddion preswyl lleol y Prosiect wedi eu hasesu (mae'r effeithiau posibl ar dderbynyddion ecolegol wedi eu trafod yn adran 4.3).

Gwnaed astudiaeth desg a gwaith monitro sŵn gwaelodlin i bennu lefelau sŵn gwaelodlin yn y derbynyddion hyn. Pennwyd y llecyn astudio i gynnwys y Derbynyddion Sensitif i Sŵn (NSR) i bob cyfeiriad fel y gwelir yn Ffigwr 6. Anheddau preswyl yw pob un o'r rhain.

Mae'r lefelau sŵn wedi eu mesur yn ystod yr arolwg o sŵn gwaelodlin wedi cydymffurfio â chanllawiau cyfyngiadau sŵn amgylcheddol gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ym mhob un ond un derbynnydd. Yn derbynnydd hwn, mae'r lefelau sŵn gwaelodlin eisoes yn ormodol heb fod y Prosiect yn bresennol.

Nodweddir yr amgylchedd sŵn gan anifeiliaid, gweithgareddau ffermio a thraffig ffordd yn y pellter yn ystod y dydd, a'r gwynt yn y coed a thraffig ffordd yn y pellter gyda'r nos, a hefyd sŵn gan yr isorsaf bresennol.

4.2.1 Effeithiau Gweddilliol

Mae'r asesiad o effeithiau gweddilliol isod yn rhagdybio y gweithredir y lliniaru ymgorfforedig (a ddisgrifiwyd yn Adran 2.10).

Adeiladu'r Prosiect

Mae gwaith adeiladu yn dygol o ddigwydd yn ystod dyddiau'r wythnos

(yn ystod y dydd), ar foreau Sadwrn a boreau Gwyliau Banc. Mae posibilrwydd y bydd sŵn a dirgrynu yn sgil gweithgareddau adeiladu yn arwain at effeithiau andwyol mewn dyfeisiau NSR yr ystyrir pob un yn dderbynyddion hynod o sensitif

Oherwydd gweithredu'r lliniaru ymgorfforedig yn arwain at ehangder effaith isel, mae'r asesiad wedi rhagweld fod potensial ar gyfer effeithiau sŵn a dirgrynu **Andwyol bach** ym mhob NSR yn ystod y cyfnod adeiladu, sydd **ddim yn arwyddocaol**. Felly nid oes angen unrhyw fesurau lliniaru neu fonitro ychwanegol.

Gweithrediad y Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Mae effeithiau yn ystod y cyfnod gweithredu wedi'u cyfyngu i'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn unig. Mae'r effeithiau sŵn a dirgrynu gweithredol o'r Ffordd Fynediad a'r AGI yn Ddibwys, ac felly maent wedi eu cwmpasu allan o'r asesiad.

Nid oes achosion dirgrynu sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn hysbys; caiff y cyfarpar cylchdroi cychwynnol yn y generadur ei gydbwyso i raddau helaeth a'i fonitro'n barhaus am unrhyw newidiadau yn y lefelau dirgrynu a gynhyrchir ganddynt. Felly, mae asesu ychwanegol o ddirgrynu gweithredol wedi'i gwmpasu allan o'r asesiad hwn.

Yn NSR 1, 2, 3, 5 a 6, cofnodwyd fod y lefelau sŵn amgylcheddol y rhagweldid


y cânt eu cynhyrchu gan y Cyfarpar Cynhyrchu yn mynd i arwain at **Effeithiau andwyol bychan, felly nid ydynt yn arwyddocaol.**

Mae'r uchafwn sŵn gwaelodlin yn NSR 4 eisoes yn uwch na chanllawiau WHO ynghylch cyfyngiadau ar sŵn ecolegol. Nid yw cyfyngiadau sŵn amgylcheddol ar gyfer y derbynnydd hwnnw wedi'u newid ar ôl ychwaegu sŵn o'r Cyfarpar Cynhyrchu. Felly mae effaith y

Cyfarpar Cynhyrchu ar yr amgylchedd sŵn yn **Ddibwys, sydd ddim yn sylweddol.**


4.2.2 Casgliadau

Ni nodwyd effeithiau sylweddol dros ben ar gyfer pob un o elfennau'r Prosiect, neu'r Prosiect yn ei gyfanrwydd oherwydd y lliniaru ymgorfforedig sydd wrth wraidd y cynllun. Felly nid oes angen unrhyw liniaru ychwanegol.



Ffigur 6: Derbynyddion Sensitif i Sŵn

4.3 Ecoleg



Ffigur 7: Y Safleoedd Dynodedig Agosaf at Derfyn y Prosiect

Mae'r asesiad wedi nodi safleoedd, cynefinoedd, rhywogaethau neu ecosystemau a ddynodwyd yn rhai ecolegol y gallai'r Prosiect effeithio arnynt ac wedi asesu tebygrwydd effeithiau sylweddol. Mae'r bennod hon hefyd yn ystyried effeithiau posibl sŵn ar dderbynyddion ecolegol.

Mae'r astudiaeth bwrdd gwaith wedi ei diweddarau ar gyfer radiws 2 km ar gyfer safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol (SSSI, SINC) a 10 km ar gyfer safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol (Ramsar, SAC, SPA).

Mae'r arolygon ecolegol canlynol wedi'u gwneud i ailsefydlu gwaelodin ecolegol ers PEIR 2014:

- Arolwg o gynefinoedd;
- Arolwg o fadfallod dŵr cribog
- Arolwg o ymlusgiaid;
- Arolwg o ddyfrgwn a llygod y dŵr;
- Arolwg o bathewod;
- Arolwg o foch daear;
- Asesiad o glwydo ystlymod ac arolwg gweithgarwch.

4.3.1 Effeithiau Gweddilliol

Yn ogystal â'r lliniaru ymgorfforedig sy'n cael sylw yn Adran 2.10, gweithredir hefyd y lliniaru ychwanegol canlynol hefyd: mesurau gwella ecolegol megis cynefinoedd disodli pan fo'n bosibl trwy'r Cynllun Tirwedd ac Adfer, arolygon cyn adeiladu a llunio Datganiad Dull ynghylch Ymlusgiaid. Felly mae'r asesiad yn casglu y bydd yr effeithiau gweddilliol canlynol:

Adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer

- Bydd colled barhaol **Andwyol fach** o ran cynefin Coetir Llydanddail, coed, Glaswelltir Naturiol wedi'i Led-wella.
- Bydd effaith barhaol **Andwyol fach** ar Infertebratau, Amffibiaid, Adar yn Magu, oherwydd y posibilrwydd o golli cynefinoedd, gan gynnwys cynefinoedd magu, porthi a chysgodi.
- Bydd colled barhaol **Andwyol fach** i'r cynefin yn SNCI Llety-Morfil, Glaswelltir Corsiog, symud dau bwll a thua 140 m o berthi.
- Bydd effaith barhaol **Andwyol fach** ar Ymlusgiaid a Moch Daear oherwydd symud cynefinoedd.
- Bydd effaith dros dro **Andwyol fach** ar Lygod y Dŵr o'r sŵn a'r amharu sy'n deillio o weithgareddau adeiladu
- Bydd effaith dros dro **Andwyol fach** ar Ddyfrgw o'r amharu sy'n deillio o weithgareddau adeiladu
- Bydd potensial ar gyfer effeithiau **Andwyol bach** ar Ystlumod oherwydd symud cynefin ac amharu ar glwydi gaeafgwsg, toriadau posibl ac amharu ar oleuadau lleol gyda'r nos yn ystod misoedd y gaeaf.
- Bydd potensial ar gyfer effeithiau **Andwyol bach** ar Adar yn Nythu oherwydd goleuadau lleol gyda'r nos yn ystod misoedd y gaeaf

Adeiladu'r Cysylltiad Nwy

- Bydd colled dros dro **Andwyol fach** o gynefin Prysgrwydd Trwchus/Parhaol, Glaswelltir Niwtral wedi'i Led-wella
- Bydd colled barhaol **Andwyol fach** oherwydd colli cynefinoedd coed
- Bydd effeithiau dros dro **Andwyol bach** ar Ymlusgiaid, Infertebratau, ac Amffibiaid trwy golli cynefinoedd dros dro.
- Bydd effeithiau **Andwyol bach** dros dro ar Adar yn Nythu oherwydd sŵn, colli cynefinoedd a goleuadau lleol gyda'r nos yn ystod misoedd y gaeaf
- Bydd colled dros dro **Andwyol fach** o ran coetiroedd llydanddail, un pwll, a hyd at 180 m o Berthi.
- Bydd effaith **Andwyol bychan** ar Foch Daear a Dyfrwn o'r potensial am niwed yn sgil gweithgareddau adeiladu.
- Bydd effeithiau **Andwyol bach** ar Ystlumod oherwydd symud cynefin porthi dros dro ac aflonyddu oherwydd gweithgareddau adeiladu.
- Mae effaith **Andwyol fach** oherwydd y posibilrwydd y bydd gweithgareddau adeiladu'n lledu rhywogaethau ymledol.

Adeiladu'r Cysylltiad Trydanol

- Bydd effeithiau **Andwyol bach** dros dro ar Adar yn Nythu oherwydd sŵn a goleuadau lleol gyda'r nos yn ystod misoedd y gaeaf
- Mae posibilrwydd yr effeithir ar Ddyfrgwn oherwydd adeiladu'r cysylltiad Trydanol sydd o fewn 10 m i nifer o gyrsiau dŵr. Ystyrir hyn yn effaith **Andwyol bychan**.

Cyfnod Gweithredau'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer

- Bydd Ystlumod ac Infertebratau yn profi effeithiau **Andwyol bychan** oherwydd goleuadau'r gweithredu.

4.3.2 Casgliadau a Chamau Nesaf

Ni nodwyd effeithiau sylweddol gweddiliol ar gyfer pob un o elfennau'r Prosiect, neu'r Prosiect yn ei gyfanrwydd oherwydd y lliniaru ymgorfforedig sy'n gynhenid i'r cynllun ond hefyd defnyddio dulliau lliniaru ychwanegol pan fo angen.

Mae'r arolygon canlynol yn mynd rhagddynt a chânt eu cynnal yn 2018:

- Arolwg o berthi ym mis Ebrill 2018;
- Arolygon o weithgarwch ystlumod cyfredol ym mis Ebrill a Mai 2018; ac
- Arolwg o adar yn nythu ym mis Mawrth / Ebrill 2018.

Pan fo'n bosibl, rhoddir canlyniadau'r arrolwg yn y Cais DCO, neu bydd yn ar ôl ei gyflwyno. Ni fydd unrhyw ganlyniadau a ohirir yn newid canlyniadau'r asesiad o effaith yn sylweddol. Bwriedir hefyd perhau i gysylltu â Dinas a Sir Abertawe a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y lliniaru ecolegol sy'n ofynnol ar gyfer ymlusgiaid a rhywogaethau eraill sy'n bresennol ar y safle.


4.4 Ansawdd Dŵr ac Adnoddau

Cynhaliwyd asesiad o'r effeithiau sylweddol tebygol ar ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a risg llifogydd.

Mae'r llecyn astudio a fabwysiadwy ynghylch ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr yn ymestyn y tu hwnt i derfyn Safle'r Prosiect fel y'i nodir yn Ffigur 8. Mae'r llecyn astudio, felly, yn cynnwys y llecyn o fewn ffin Safle'r Prosiect a pharth dylanwad (Zol) posibl a hwnnw wedi ei ddiffinio'n bellter y mae posibilrwydd rhesymol y bydd effeithiau sylweddol ar dderbynyddion/nodweddion dŵr pwysig yn digwydd.

Yn yr achos hwn, o safbwynt derbynyddion/nodweddion dŵr, diffinnir hwn yn barth dylanwad (Zol) clustogi 1 km o amgylch terfyn Safle'r Prosiect.

Mae astudiaeth bwrdd gwaith ac arolwg ar droed o Safle'r Prosiect wedi nodi nifer o dderbynyddion (llecynnau dyfrol) o fewn 1 km i Safle'r Prosiect, gan gynnwys Afon Llan a'i llednentydd, llynnoedd o fewn Terfyn Safle'r Prosiect a nifer o safleoedd SINC. Mae SAC Aber Lluchwr / Cilfach Tywyn wedi'i leoli 7 km o Derfyn Safle'r Prosiect.



Ffigur 8: Ansawdd Dŵr a Derbynyddion Adnoddau

Nid oes unrhyw ran o Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu wedi'i lleoli mewn parth lle ceir risg llifogydd, fel y dynodir gan NRW. Fodd bynnag, mae rhan fach ar ymyl terfyn dwyreiniol Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu o fewn Parth B (tystiolaeth flaenorol o lifogydd hanesyddol) Mapiau Cyngor Datblygu TAN15.

4.4.1 Effeithiau Gweddilliol

Mae'r asesiad o effeithiau gweddilliol isod yn rhagdybio y gweithredir y lliniaru ymgorfforedig (disgrifiwyd yn Adran 2.10), yn benodol y Strategaeth Draenio Amlinellol.

At ddibenion yr asesiad hwn o effeithiau gweddilliol, mae'r holl dderbynyddion wedi eu rhannu'n dderbynyddion wedi eu dynodi'n uchel neu'n ganolig eu sensitifrwydd. Canfu'r asesiad fod ehangder effaith y derbynyddion hyn naill ai'n Fach neu'n Ddibwys.

Adeiladu'r Prosiect

Mae effaith **Ddibwys** yn sgil arllwys dŵr o waith cloddio adeiladu sy'n cynnwys llygryddion mwy o lygrwyr a llwythi gwaddod yn sgil symud deunyddiau i'r holl dderbynyddion a nodir ac eithrio Aber Llŵchwr, yr ystyrid ei fod yn **Andwyol bach** ei effaith. Caiff yr holl effeithiau eu hystyried yn rhan sydd **ddim yn arwyddocaol**.

Gweithrediad y Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Rhagfynegir y bydd effeithiau dŵr ffo'r wyneb o fannau anathraidd ac yn amharu ar storio a llif dŵr o Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu ar Afon Llan a'i llednentydd yn rhai **Andwyol bach**. Felly, **nid yw hyn yn arwyddocaol**.

4.4.2 Casgliadau

Ni nodwyd effeithiau sylweddol dros ben ar gyfer pob un o elfennau'r Prosiect, neu'r Prosiect yn ei gyfanrwydd oherwydd y lliniaru ymgorfforedig sydd wrth wraidd y cynllun. Felly nid oes angen unrhyw liniaru ychwanegol.

4.5 Daeareg, Amgylchiadau Tir a Hydroddaereg

Cynhaliwyd asesiad o effeithiau'r Prosiect ar ddaeareg, amgylchiadau tir a hydroddaereg o fewn ac yn agos iawn at Safle'r Prosiect. Mae'r bennod hefyd yn darparu manylion amgylchiadau daearegol a phresenoldeb tir a lygrwyd, o bosibl.

Yn ogystal â'r astudiaeth bwrdd gwaith (ar sail llecyn astudio 1 km), ac arolwg ar droed o Safle'r Prosiect, ni nododd yr asesiad unrhyw safleoedd tirlenwi, echdynnu dŵr daear neu achosion o lygredd o fewn Safle'r Prosiect.

Mae defnydd y tir yn amaethyddol yn bennaf, wedi ei ddefnyddio ar gyfer pori defaid a cheffylau â ffosydd draenio, ffensys a pherthi. Mae pedwar math o ddyddodion arwynebol a nodwyd ar draws Safle'r Prosiect lle ceir clog-glai rhewlifol, dyddodion tywod a graean, a mawn. Ystyrir y ddyddodion arwynebol a'r ddaeareg waelodol yn Ddyfrhaenau Eilaidd A, sy'n ddyfroedd rheoledig hynod o sensitif.

Nid yw'r astudiaeth bwrdd gwaith yn awgrymu presenoldeb unrhyw weithfeydd tir hanesyddol hysbys ar Safle'r Prosiect, fodd bynnag oddi mewn i fyffer archwilio 1 km, mae deg cofnod o nodweddion gweithio daear sydd oll wedi gorffen cynhyrchu.

Mae'r rhain yn cynnwys naw gwaith glo brig sy'n cynhyrchu tywodfeini a thywod a graean ac un gwaith dan ddaear sy'n cynhyrchu glo. Nid oes unrhyw ffynonellau llygru posibl hysbys

o fewn terfyn Safle'r Prosiect, fodd bynnag, gallai'r ffynonellau y tu allan i'r safle gynnwys tirlenwi hanesyddol ac estyniad tirlenwi a llygru lleol yn sgil defnydd amaethyddol ar y tir.

Mae Map Cynigion UDP Dinas a Sir Abertawe yn nodi bod cronïadau o dywod a graean yn bresennol o dan Safle'r Prosiect.

4.5.1 Effeithiau Gweddilliol

Mae'r asesiad o effeithiau gweddilliol isod yn rhagdybio y gweithredir y lliniaru ymgorfforedig (disgrifiwyd yn Adran 2.10), yn benodol yr ymchwiliad tir i'w gynnal ar ôl cydsynio ond cyn i'r adeiladu ddechrau. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu sensitifrwydd y derbynyddion a nodwyd:

Tabl 7: Derbynyddion Sensitif a nodwyd o fewn Daeareg, Amgylchiadau Tir a Hydroddaereg

Derbynydd	Sensitifrwydd
Adnoddau Mwynol	Isel
Dyddodion Mawn	Isel
Tir Amaethyddol	Dibwys
Strwythurau (sefydlogrwydd)	Uchel
Dyfroedd Rheoledig	Uchel
Ansawdd y Tir	Uchel
Iechyd Pobl (gweithwyr adeiladu)	Uchel

Adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Rhagfynegir y caiff adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer effeithiau **Andwyol**

bach ar adnoddau mwynau, strwythurau oherwydd sefydlogrwydd neu amgylchiadau daear, ansawdd tir, iechyd pobl a dyfroedd a reolir, ag effeithiau **Dibwys** ar dir amaethyddol a dyddodion mawn. Felly, **nid yw'r effeithiau hyn yn arwyddocaol.**

Adeiladu'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol

Rhagfynegir y caiff adeiladu'r Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy effaith **Andwyol fach** ar adnoddau mwynau yn achos crynodiadau glo a thywod a graean, ac effaith **Ddibwys** ar dir amaethyddol. Caiff hyn ei ystyried yn effaith sydd **ddim yn arwoddocaol.**

Gweithrediad y Prosiect

Disgwylir i'r cyfnod gweithredol gael effaith **Andwyol fach** ar holl dderbynyddion y Weithfa Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol, ac eithrio strwythurau'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer sy'n cael effaith lesol fach oherwydd sefydlogi'r amgylchiadau daear.

4.5.2 Casgliadau

Ni nodwyd effeithiau sylweddol gweddilliol ar gyfer pob un o elfennau'r Prosiect, neu'r Prosiect yn ei gyfanrwydd oherwydd y lliniaru ymgorfforedig sydd wrth wraidd y cynllun. Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gwledol

4.6 Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gwledol

Mae'r effeithiau posibl o ran y dirwedd ac effeithiau gwledol ar olygfannau cynrychiadol lleol a derbynyddion preswyl oherwydd y Prosiect wedi eu hasesu.

Cyflawnwyd astudiaeth bwrdd gwaith, arolwg ar droed o Safle'r Prosiect a ffotograffiaeth haf a ddiweddarwyd i ailsefydlu'r lleoliad tirwedd gwaelodlin yn y golygfannau hyn. Mae uchder uchafsymiol wedi newid rhwng 40 m a 45 m yn PEIR, felly mae'r mannau ble gellir gweld y Prosiect (Parth Gwelededd Damcaniaethol (ZTV)) hefyd wedi eu ddiweddarau ond mae'r llecyn astudio 15 km yn parhau'n ddilys.

Mae hyn wedi dilysu'r golygfannau blaenorol, fodd bynnag mae Golygfan 17 wedi disodli Golygfa 10 oherwydd mae ymweliad â Safle'r Prosiect ym mis Tachwedd 2017 wedi dangos bellach fod y golygfeydd blaendir yn cynnwys ffermydd solar a ffensys diogelwch cysylltiedig.

Mae'r asesiad wedi ei ddiweddarau mewn ymateb i newidiadau mewn canllawiau ynghylch dirwedd, sef Canllawiau Newydd ar gyfer Asesiad o Effaith ar Dirwedd a Gwledol (GLVIA3) sydd wedi ei gyhoeddi ers PEIR 2014.

Mae Safle'r Prosiect wedi'i leoli yn ganolog yn Nyffryn Afon Lian sy'n ffurfio basn iseldir eang â thir uwch a dyffrynnoedd serth i'r gogledd a'r dwyrain. Mae llawr y dyffryn yn eang

ac yn donnog, a'i gefn i'r gogledd â chorsdir sy'n codi i dros 250 m AOD ac wedi ei rannu gan nifer o ddyffrynnoedd cul, serth. Mae Safle'r Prosiect wedi ei leoli mewn dyffryn â'r ddaear yn codi i'r gogledd, dwyrain a'r gorllewin sy'n darparu cyfyngiant gwledol. Mae lefelau'r tir ar draws Safle'r Prosiect yn amrywio o 140 m AOD yn y gornel ogledd-orllewinol i 80 m AOD ar hyd y terfyn deheuol. Saif lefelau'r ddaear yn gyffredinol i gyfeiriad deheuol a de-ddwyreiniol.

Mae nifer o ffermydd solar wedi'u lleoli o gwmpas Safle'r Prosiect yn enwedig y gogledd-ddwyrain a dwyrain yn ogystal â'r gogledd-orllewin. Mae Parc Busnes Felindre ger y Safle Parcio a Rhannu ym Mrynwhilhach wedi ei adeiladu'n rhannol ac mae seilwaith gwasanaeth yn ei le ynghyd â thirwedd amlinellol gan gynnwys muriau cerrig a phlanhigion.

Mae nifer o dirweddau dynodedig yn bresennol o fewn y llecyn astudio 15km.

- Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 11.8 km o derfyn gogleddol Safle'r Prosiect yn ei fan agosaf.
- Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Penrhyn Gŵyr 9.1 km i'r de-orllewin i Safle'r Prosiect.
- Mae Ardal Tirwedd Arbennig Ucheldir Mawr o fewn y llecyn astudio 15 km.

Mae pum ardal LANDMAP o fewn yr astudiaeth 15 km:

- Ardal Agwedd LANDMAP - Gweledol a Synhwyrdd;
- Ardal Agwedd LANDMAP – Cynefin;
- Ardal Agwedd LANDMAP – Daearegol;
- Ardal Agwedd LANDMAP – Hanesyddol;
- Ardal Agwedd LANDMAP – Diwylliannol.

lliniaru ymgorfforedig (disgrifiwyd yn Adran 2.10).


Mae hyn yn cynnwys creu Strategaeth Tirwedd Amlinellol a Chynllun Tirwedd ac Adfer.

Adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Casglodd Asesiad Tirwedd rhagarweiniol y câr'r Prosiect effaith weledol ar Safle'r Prosiect a'r Ardaloedd Agwedd LANDMAP canlynol (rhoddir nodiadau ynghylch sensitifrwydd o fewn Terfyn Safle'r Prosiect ar y ddalen nesaf):

4.6.1 Effeithiau Gweddiol

Mae'r asesiad o effeithiau gweddiol isod yn rhagdybio y gweithredir y



Ffigur 9: Map Lleoliadau Golygfannau (Sylwer – 15 golygfan yn unig a ddangosir ar y raddfa hon)

- Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyraidd – Coedwig Rhyd-y-pandy a Phenllergaer (Sensitifrwydd cymedrol);
- Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd – I'r gogledd o Orseinon ac Abertawe (Sensitifrwydd Cymedrol); i'r dwyrain o Benllergaer (Sensitifrwydd uchel) a Waun Y Garn Wen (Sensitifrwydd uchel);
- Ardal Agwedd Tirwedd Hanesyddol – H27 Iscoed Amaethyddol Gŵyr (Sensitifrwydd eithriadol);
- Ardal Agwedd Tirwedd Daearegol – Penllergaer (Sensitifrwydd eithriadol); ac
- Ardal Agwedd Tirwedd Diwylliannol – Y Mawr (Sensitif iawn).

Yn ystod cyfnod adeiladu'r gweithfeydd, byddai effeithiau andwyol sylweddol yn gyfyngedig i ardaloedd Agwedd LANDMAP ar lefel Safle'r Prosiect ac ni fyddai pump o'r deunaw golygfan (fel y dangosir gan olygfannau 9, 14, 15, 16 and 17), lle na fyddai'r lliniaru ymgorfforedig hwn yn ddigon i leihau'r effeithiau andwyol sylweddol hyn.

Pan fyddai'n weithredol, byddai'r lliniaru tirwedd ymgorfforedig yn helpu i sgrinio rhannau isaf y Weithfa Cynhyrchu Pŵer ond ni fyddai'n ddigonol i leihau effeithiau andwyol sylweddol ar ardaloedd Agwedd LANDMAP ar lefel Safle'r Prosiect a hynny o bump o'r deunaw golygfan. Y rheswm am hyn yw graddfa a màs y

Weithfa Cynhyrchu Pŵer ac uchder y stac.

Mae'r effeithiau ar harddwch gweledol o olygfannau 9, 14, 15, 16 a 17 yn rhai **Andwyol Cymedrol neu Fawr**, sy'n **sylweddol**. Mae'r holl olygfannau sy'n weddill yn casglu y bydd effeithiau **Andwyol bachneu Ddibwys**, nad dydynt yn rhai **sylweddol**.

Adeiladu'r Cysylltiad Nwy

Byddai Adeiladu'r Cysylltiad Nwy yn effeithio ar yr Hawl Dramwy Gyhoeddus, i'r gogledd i Abergelli fach (golygfan 9), gan esgor ar effaith **Gymedrol**. Ystyrir bod hon yn un **sylweddol**, fodd bynnag, effaith dros dro yw hon oherwydd câi'r ffos ei hadfer ar ôl adeiladu.

Adeiladu'r Cysylltiad Trydanol

Ni châi adeiladu'r Cysylltiad Trydanol unrhyw effeithiau sylweddol ar y dirwedd a derbynyddion oherwydd ei leoliad ger y Ffordd Fynediad a'r ffos dros dro yn cael ei hadfer ar ôl ei adeiladu.

Gweithrediad y Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Câi'r Prosiect effaith ar yr un pum golygfan gynrychiadol (golygfannau 9, 14, 15, 16 a 17) â'r cyfnod adeiladu, ag effaith **Gymedrol i Fawr, a ystyrir, o'r herwydd, yn rhai sylweddol**.

Ni fyddai effeithiau andwyol sylweddol ar yr adnodd tirwedd yn y lle cyn astudiaeth 5 km na'r rhan fwyaf o'r golygfannau.

Mae Safle'r Prosiect mewn dyffryn sydd, ynghyd â'r coetir presennol a'r

dopograffeg donnog yn darparu llawer iawn o gynhwysiant gweledol. Mae'r golygfeydd o ffyrdd lleol wedi eu sgrinio neu eu ffiltro gan berthi a chloddiau. Ni fyddai effeithiau sylweddol ar olygfeydd dros Safle'r Prosiect o dir uwch i'r gogledd ac o olygfeydd pellach i'r de-ddwyrain ger AHNE Penrhyn Gŵyr oherwydd y pellter rhyngddynt, llystyfiant a'r ffurf adeiledig. Ble mae golygfeydd o rannau uchaf y Gwaith Cynhyrchu Pŵer a'r stac yn weladwy ym mhellter canolig golygfeydd, byddai'r rhain yn cael eu gweld yng nghyd-destun y rhwydwaith bresennol o beilonau a llinellau trawsyrru, a'r adeileddau uchel sy'n bresennol yng Ngorsaf Cywasgu Nwy ac Isorsaf Felindre. O ganlyniad, mae effeithiau gweddilliol arwyddocaol

ar y dirweddau ac adnoddau gweledol yn lleol eu natur ac nid yn helaeth.

4.6.2 Casgliadau a Chamau Nesaf

Mae effeithiau sylweddol wedi eu nodi ar Ardaloedd Agwedd LANDMAP, Golygfannau 9 a 14-17 yn ystod adeiladu a gweithredu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd APL yn parhau i gysylltu â CCS a NRW ynghylch golygfannau ychwanegol. Yn ogystal, diweddarir ffotograffiaeth a ddefnyddir ar gyfer montage ffotograffig a chânt eu cynnwys yn y cais am DCO. Felly, bydd y cais am DCO yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ac asesiad o dirwedd a gweledol wedi ei ddiweddarau.



Ffigur 10: Delweddau o'r Prosiect (mewn coch) o'r Hawl Tramwy Cyhoeddus, i'r gogledd o Abergelli fach (Golygfan 9)



Ffigur 11: Delweddau o'r Prosiect (mewn coch) o'r M4 (Golygfan 1)

4.7 Traffig, Cludiant a Mynediad

Yn y bennod hon, rhoddir asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau tebygol ar gludiant. Cynhaliwyd Asesiad o Drafnidiaeth a chaiff Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) a Chynllun Teithio Staff Adeiladu (CSTP) eu llunio a'u cyflwyno gyda'r cais am DCO.

Mae'r llecyn astudio yn cynnwys y Ffordd fynediad rhwng Safle'r Prosiect a'r B4489 ac mae'n parhau i'r de er mwyn cynnwys Cyffordd 46 yr M4 a Chyffordd yr A48/Ffordd Pant Lasau. Dewiswyd llecyn yr astudiaeth gwaelodlin hon i gynnwys y cyffyrdd sydd eu hangen, cysylltiadau allweddol, llwybrau cerdded (Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ffyrdd beicio a llwybrau cerdded), a llwybrau mynediad i'r Prosiect a chytunwyd ar y rhain â'r CCS. Nodwyd y cysylltiadau allweddol canlynol:

Y cysylltiadau allweddol yw'r canlynol:

- Cysylltiad 1 – B4489, rhwng y Ffordd Fynediad a chyfleuster Parcio a Rhannu Parc Felindre;
- Cysylltiad 2 – B4489, rhwng cyfleuster Parcio a Rhannu Parc Felindre a chyffordd 46 yr M4;
- Cysylltiad 3 - Slipffordd ymuno â'r M4 i gyfeiriad y dwyrain
- Cysylltiad 4 – A48, rhwng cylchfannau dymbel gogleddol a deheuol Cyffordd 46 yr M4
- Cysylltiad 5 - Slipffordd ymuno â'r M4 i gyfeiriad y gorllewin
- Cysylltiad 6 – A48, rhwng Cyffordd 46 yr M4 Junction a

chylchfan fechan A48/Ffordd Pant Lasau;

- Cysylltiad 7 – Ffordd Pant Lasau;
- Cysylltiad 8 – A48, i'r de-ddwyrain i gylchfan fechan A48/Pant Lasau;
- Cysylltiad 9 – B4489, i'r de o Gyffordd 46 yr M4;
- Cysylltiad 10 – A48, i'r de-orllewin o Gyffordd 46 yr M4.

Mae llwybrau cerdded LC34 a LC117 yn croesi'r Ffordd Fynediad (a'r Ffordd Fynediad newydd) ar fannau tua 350 m a 1.3 km o'r B4489. Mae llwybr troed LC35B yn mynd trwy ran ogleddol y safle.

Cynhaliwyd astudiaeth gwaelodlin ac arolwg cyfrif traffig i nodi'r amodau gwaelodlin yng nghyffiniau Safle'r Prosiect; gan gynnwys y rhwydwaith priffyrdd lleol ac amgylchiadau gweithredol, diogelwch ar y ffyrdd a mynediad trwy ddulliau cynaliadwy megis llwybrau beicio a llwybrau troed.

Mae'r asesiad o drafnidiaeth wedi asesu traffig adeiladu yn unig oherwydd ystyrir bod traffig gweithredol yn ddibwys ac felly mae wedi ei gwmpasu allan o'r asesiad hwn.

4.7.1 Effeithiau Gweddioli

Mae'r asesiad o effeithiau gweddilliol isod yn rhagdybio y gweithredir y lliniaru ymgorfforedig (disgrifiwyd yn Adran 2.10).

Mae derbynyddion ynghylch gwahanu, oedi cerddwyr, amwynder cerddwyr, ac ofn a dychrynu yn ymwneud yn bennaf â phrofiad cerddwyr ar sail newidiadau o ran maint a chyfansoddiad y traffig. Gall cynnydd o ran cyfanswm traffig a chyfansoddiad cerbydau nwyddau trwm arwain at anawsterau i gerddwyr wrth groesi ffyrdd ac effeithio ar bleser teithiau.

Adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Bydd effaith **Andwyol fach** ar y mwyaffrif o gysylltiadau trafndiaeth yn ystod yr awr frig ar gyfer Gwahanu, Oedi Cerddwyr, Amwynder, Ofn a Dychrynu, ac felly ystyrir bod hyn yn **ansylweddol**.

Ystyrir bod yr effeithiau ar Gysylltiad 1 a'r llwybrau cerdded sy'n croesi o fewn Terfyn Safle'r Prosiect yn rhai **Cymedrol** oherwydd profiad cerddwyr a defnyddwyr, ac felly maent yn **sylweddol**.

Canfuwyd hefyd fod rhagor o oedi ar y B4489 oherwydd y Weithfa Cynhyrchu Pŵer yr ystyrir ei bod yn un **Andwyol fach**, a llai o oedi ar Slipffordd yr M4 i'r Dwyrain a'r Gorllewin yr ystyrir ei fod yn effaith **Llesol fach**. Mae hyn o ganlyniad i newidiadau yng nghydbwysedd llif traffig yn y gyffordd, a wnaiff arwain ar ragor o fylchau i draffig sy'n gadael o'r breichiau hyn wrth i flaenoriaethau gael eu newid. Bydd hyn yn golygu lleihau lefel yr oedi o'r breichiau sy'n elwa o'r cydbwybws o ran y llif traffig a chynnydd yn y breichiau sy'n gorfod ildio blaenoriaeth yn fwy na chyn i'r llifau traffig gael eu cydbwyso.

Adeiladu'r Cysylltiad Nwy

Rhagfynegir y bydd y Cysylltiad Nwy yn creu effeithiau **Andwyol bach** oherwydd y cynnydd o ran symudiadau cerbydau nwyddau trwm yn ystod yr wythnos ger Cysylltiad 1, ac effeithiau **Cymedrol** ar lwybrau cerdded oherwydd cau dros dro a phrofiad cerddwyr yn ystod yr adeiladu. Effeithiau ar oedi gyrwyr, Damweiniau a Diogelwch a chyfanswm y traffig yn ystod yr wythnos ar gyfer y bore a'r prynhawn i'w gadarnhau yn y Cais am DCO.

Adeiladu'r Cysylltiad Trydanol

Disgwylir y bydd **Effaith cymedrol** ar lwybrau troed yn ystod adeiladu'r Cysylltiad Trydanol oherwydd cau dros dro a phrofiad cerddwyr. Ystyrir fod hyn yn **effaith ansylweddol**.

Effaeithiau ar oedi gyrwyr, Damweiniau a Diogelwch a chyfanswm y traffig yn ystod yr wythnos ar gyfer y bore a'r prynhawn i'w gadarnhau yn y Cais DCO.

Casgliadau a Chamau Nesaf

Mae'r bennod hon wedi nodi effeithiau ar rwydwaith y priffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a hygyrchedd. Mae effeithiau **Arwyddocaol** wedi'u rhagweld yn ystod cyfnod adeiladu'r Prosiect, ond byddent yn rhai dros dro. Ni nodwyd unrhyw effeithiau yn ystod gweithrediad unrhyw un o elfennau'r Prosiect.

Bydd y gwaith ymgynghori â Phriffyrdd CCS yn parhau trwy gydol y cyfnod ymgynghori a diweddarir yr asesiad effaith ar gyfer y Cais am DCO.

4.8 Yr Amgylchedd Hanesyddol

Aseswyd effeithiau posibl y Prosiect ar adnodd amgylcheddol hanesyddol Safle'r Prosiect a'r ardal oddi amgylch.

Cynhaliwyd llecyn astudiaeth 1 km ar gyfer asesiad bwrdd gwaith o asedau hanesyddol a chynhaliwyd gwaith ymgynghori pellach â CCS, Cadw ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent (GGAT) i lywio'r asesiad a ddiweddarwyd.

Adolygwyd hefyd y ZTV a baratowyd ar gyfer y bennod tirwedd a gweledol oherwydd y newid yn uchder y staciau i 45 m, ac o'r herwydd, diweddarwyd y llecyn astudiaeth 5 km ar gyfer yr asedau hanesyddol a ddynodwyd.

Nid yw Safle'r Prosiect yn cynnwys unrhyw asedau hanesyddol er bod un heneb cofrestredig, yn adeilad rhestredig a 28 heneb anghofrestredig yn bresennol o fewn y llecyn astudio 1 km, ac mae 16 o Henebion Cofrestredig, 52 Adeilad Rhestredig (pob gradd), dau Ardal Cadwraeth a thri Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig y bresennol o fewn y llecyn astudio 5km.

4.8.1 Effeithiau Gweddiol

Mae'r asesiad o effeithiau gweddiol isod yn rhagdybio y gweithredir y lliniaru ymgorfforedig (disgrifiwyd yn Adran 2.10).

Adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Ni fydd adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer yn effeithio'n ffisegol ar unrhyw ased hanesyddol hysbys. Nid oes

unrhyw asedau hanesyddol yn bodoli o fewn ei hôl-droed. Felly, mae hyn yn effaith **Dibwys**.

Ystyrir mai isel yw'r posibilrwydd bod archeoleg sylweddol anhysbys i'w chael o fewn Safle'r Prosiect, a'r posibilrwydd o'i darganfod yn cael sylw digonol trwy friff gwyllo ar ôl cydsynio, ac ar ôl adeiladu.

Adeiladu'r Cysylltiad Nwy

Ni chaiff adeiladu'r Cysylltiad Nwy effaith ffisegol ar unrhyw ased hanesyddol hysbys, ac eithrio pan fo'r Biblinell Nwy yn croesi canran bach o ffin hanesyddol (cyfeiriad nodwedd AB03), ac o'r herwydd yn creu gofyniad i'w symud. Mae'r nodwedd hon eisoes wedi ei newid yn sylweddol pan osodwyd y Biblinell flaenorol, felly ystyrir mai ychydig o'r ffabrig hanesyddol sy'n weddill, ac o'r herwydd ystyrir bod yr effaith yn **Ddibwys**.

Bydd y Cysylltiad Nwy hefyd yn cydreddeg yn gyfochrog ag ail derfyn hanesyddol (cyfeiriad nodwedd AB04), sy'n cyd-fynd â therfyn gorllewinol Safle'r Prosiect. Fodd bynnag, rhagwelir effaith **Ddibwys** oherwydd agosrwydd y Biblinell Nwy at y terfyn gorllewinol, sef oddeutu 25 m.

Felly nid yw'r effeithiau yn ystod adeiladu'r Weithfa Cynhyrchu Pŵer yn rhai sylweddol.

Adeiladu'r Cysylltiad Trydanol

Ni fydd adeiladu'r Cysylltiad Trydanol yn effeithio'n ffisegol ar unrhyw ased hanesyddol hysbys. Felly, mae hyn yn effaith **Dibwys**.

Gweithrediad y Weithfa Cynhyrchu Pŵer

Ni ragwelir unrhyw amhariad daear yn ystod y cyfnod gweithredol ar gyfer unrhyw weithgarwch gweithredol neu gynnal a chadw, o'r herwydd ni fydd unrhyw effaith bellach ar weddillion archeolegol uwchlaw'r ddaear pan fydd y Prosiect yn weithredol.

Mae Ardal Cadwraeth Llansamlet (cyfeiriad nodwedd CA027), Parc a Gardd Penllergaer (cyfeiriad nodwedd GM054) a saif nifer o adeiladau rhestredig o fewn y llecyn astudio 5 km a gallai'r stac fod yn weladwy o'r manau hyn. Fodd bynnag, o gofio fod y dirwedd rhyngol wedi'i datblygu'n sylweddol, ni rhagwelir y caiff yr Ardal Cadwraeth, y Parc a'r Ardd, na'r Adeiladau Cofrestedig eu heffeithio'n andwyol gan y Prosiect.

Rhagwelir y gellid gweld ychydig o'r Prosiect o'r Heneb Gofrestredig (Crug Crwn Mynydd Pysodlyn) felly ystyrir fod ganddo effaith **Andwyol fach** ar sail ei sensitifrwydd gwerth Uchel. Fodd bynnag, nid yw'r effaith yn **un sylweddol**.

Casgliadau a Chamau Nesaf

Mae'r gwaith o asesu effeithiau'r Prosiect ar leoliad asedau hanesyddol yn y cyfnod interim. Bydd y Cais am DCO yn cynnwys ffotograffiaeth gaeaf o'r Aseiad Tirwedd a Gweledol, yn ogystal â golygfannau ychwanegol i lywio aseiad diweddaredig.

Adeg y PEIR hwn, er ei fod yn weladwy iawn o fewn y Llecyn Astudio 5 km a fabwysiadwyd ar gyfer yr aseiad hwn, casglwyd mai cyfyngedig iawn yw'r effaith ar leoliad asedau hanesyddol. Rhagfynegir un effaith **Ddibwys fach**, heb effaith ar unrhyw asedau eraill oherwydd presenoldeb y Prosiect. Felly nid oes angen unrhyw liniaru ychwanegol.

4.9 Effeithiau Cymdeithasol ac Economaidd

Yn y bennod hon rhoddir asesiad o'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd tebygol ar y farchnad lafur, yr economi twristiaeth, a'r seilwaith cymunedol sy'n deillio o'r Prosiect.

Mae'r llecyn astudio ymdeithasol ac economaidd yn seiliedig ar ddalgylchoedd amser gyrru yn sgil y Prosiect. Diffinnir yr 'ardal leol' o fewn amser gyrru 30 munud; 'ardal ehangach' o fewn amser gyrru 45 munud; a'r 'rhanbarth ehangach' o fewn amser gyrru 60 munud. Mae'r ardal astudio wedi nodi gweithlu hawdd ei gael, â nifer uchel o lafurwyr bôn braich.

Cygyngir llecyn astudio'r arolwg o dwristiaeth/busnesau i radiws 10 m o'r Prosiect. Dyma ble rhagwelir y mwyafrif o'r effeithiau. Cynhaliwyd astudiaeth bwrdd gwaith a nododd nifer gyfyngedig o atyniadau twristaidd o fewn Terfyn Safle'r Prosiect, sef Gwarchodfa Natur Cwm Clydach, Llwybr Beicio Cenedlaethol 43 a chanolfan pledu paent Teamforce a Chanolfan Gweithgareddau Tag Laser.

4.9.1 Effeithiau Gweddiol

Mae'r asesiad o effeithiau gweddilliol isod yn rhagdybio y gweithredir y lliniaru ymgorfforedig (a ddisgrifiwyd yn Adran 2.10).

Adeiladu'r Prosiect

Rhagwelir y bydd adeiladu'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol yn arwain at effeithiau **Dibwys** ar dwristiaeth,

busnes a chymunedau yn ystod adeiladu. Mae'n debyg y bydd Llwybr Cenedlaethol 43 yn profiad effeithiau **Andwyol bychan** yn ystod adeiladu. At ei gilydd, disgwylir y bydd y Prosiect yn cael effaith **Andwyol fach** ar dderbynyddion Seilwaith cymunedol ond effeithiau **Buddiol dibwys** ar Farchnadoedd Llafur.

Ar y cyfan, **nid yw'r effeithiau hyn yn arwyddocaol.**

Gweithrediad y Prosiect

Rhagwelir y bydd gweithredu'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol yn arwain at effeithiau **Dibwys** ar dwristiaeth, busnes a chymunedau yn ystod gweithredu. Mae'n debyg y bydd Llwybr Cenedlaethol 43 yn profiad effeithiau **Andwyol bychan** yn ystod gweithredu. At ei gilydd, disgwylir y bydd y Prosiect yn cael effaith **Andwyol fach** ar dderbynyddion Seilwaith cymunedol ond effeithiau **Buddiol dibwys** ar Farchnadoedd Llafur.

Ar y cyfan, **nid yw'r effeithiau hyn yn arwyddocaol.**

4.9.2 Casgliadau

Ni chaiff y Prosiect unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar dwristiaeth a derbynyddion hamdden yn yr ardal yn ystod yr adeiladu neu'r gweithredu. Fodd bynnag, gellir gwella'r effeithiau llesol ar gyflogaeth trwy wneud cysylltiadau â chanolfannau gwaith,

colegau, rhaglenni cyflogaeth ac
ymwneud â chwmnïau adeiladu lleol a
chwmnïau eraill yn y gadwyn gyflenwi .

4.10 Effeithiau Eraill

Yn y bennod hon, trafodir pynciau nad ydynt yn cael sylw penodol yng nghydestun y prif benodau ynghylch pynciau mewn rhannau eraill o'r PEIR hwn, neu'r effeithiau na thybir eu bod yn haeddu pennod benodol iddynt, ond sydd wedi cael sylw yn unol â cheisiadau gan ymgylchreion, gan gynnwys trwy'r Farn Gwmpasu.

Effeithiau yn ystod y Cyfnod Adeiladu a Datgomisiynu

Gwastraff: Gallai deunydd gwastraff ddeillio o adeiladu a datgomisiynu'r Prosiect. Mae'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (**Cyf. 6**) yn cadarnhau bod capasiti rheoli gwastraff digonol wedi ei ddarparu yn Ne-orllewin Cymru i ymdopi â phob math o wastraff a allai ddeillio gan gynnwys gwastraff diwydiannol, adeiladu a datgomisiynu, a gwastraff peryglus.

Bydd y Prosiect yn gweithredu gan gydymffurfio'n llawn â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff (**Cyf. 7**), ynghyd â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (**Cyf. 8**) a Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (**Cyf. 9**).

Iechyd y Cyhoedd: Fe wnaeth Public Health England (PHE) nodi'r boblogaeth leol fel derbynnydd sensitif. Effeithiau ar iechyd y cyhoedd oherwydd sŵn, ansawdd aer, niwsans, llwch, halogi'r tir a llygredd wedi cael sylw yn y penodau pwnc perthnasol a bydd camau lliniaru ymgorfforedig ac ychwanegol yn cael eu cymryd yn

achos y rhain pan fo angen. Nid oes unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol yn ystod adeiladu a gweithredu wedi cael eu nodi.

Iechyd a Diogelwch: Caiff rheolwr y safle gyfrifoldeb beunyddiol am gynnal a chadw Iechyd a Diogelwch, a bydd yn llunio datganiad asesu risg a datganiad dull sy'n rhoi manylion sut y byddant yn lleihau'r risg. Bydd dull cymeradwy yn:

- Nodi effeithiau Iechyd a Diogelwch sylweddol y gellir eu disgwyl;
- Asesu risgiau yn deillio o'r effeithiau hyn;
- Nodi'r mesurau rheoli i'w cymryd ac ailgyfrifo'r risg;
- Adrodd pan nodir lefel amhriodol o risg gweddilliol er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau.

Bydd y cyflogwr yn sicrhau fod swyddog cymorth cyntaf cymwysedig ar gael bob amser. Bydd gorsafod cymorth cyntaf â chyfarpar priodol yn hawdd eu cyrraedd ar draws y gweithle.

Ni fydd gan y cyhoedd unrhyw fynediad i fannau adeiladu. Diogelir Safe'r Prosiect i atal unrhyw fynediad diawdurdod.

Effeithiau yn ystod y Cyfnod Gweithredu

Gwastraff: Yn ystod gweithredu'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, cynhyrchir ychydig bach o wastraff. Bydd y gwastraff hwn yn cynnwys gwastraff

sy'n beryglus ei natur a gwastraff sydd ddim yn beryglus. Mae cyfleusterau trin priodol ar gael yn lleol, a chaiff gwastraff a gynhyrchir gan y Prosiect effaith **Ddibwys**.

